# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | 8 Medi 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 16 MEDI 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 8 Ebrill, 2016 (copi ynghlwm).

**5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**
(Tudalennau 11 - 12)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2015/16** (Tudalennau 13 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) i Aelodau'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon a darparu sylwadau ac arsylwadau.

**7 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 91 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) i hysbysu'r Pwyllgor o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10am ar 2 Rhagfyr 2016 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem/eitemau busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**10 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**
(Tudalennau 115 - 116)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## AELODAETH

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne Mellor

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Barry Mellor
Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

## COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn CONFERENCE ROOM 1b, COUNTY HALL, RUTHIN, Dydd Gwener, 8 Ebrill 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Yr Aelodau Annibynnol Mr Ian Trigger (Cadeirydd), Paula White, Julia Hughes, Anne Mellor a'r Cynghorwyr B. Mellor a David E. Jones.

## HEFYD YN BRESENNOL

Dirprwy Swyddog Monitro (LJ), Mr Gareth Nickels (Clerc Cyngor Tref y Rhyl) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cynghorydd W.L. Cowie wedi ymddiswyddo fel Aelod o'r Pwyllgor Safonau. Gofynnodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Dirprwy Swyddog Monitro i ysgrifennu at y Cynghorydd Cowie yn mynegi eu gwerthfawrogiad am ei waith caled, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr fel Aelod o'r Pwyllgor.
**(LJ i Weithredu)**

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd y cysylltiadau canlynol wedi eu nodi yn eitemau busnes i gael eu hystyried yn y cyfarfod.

Eitem 3 ar yr Agenda: - "Cais i ymestyn yr oddefeb i Aelodau Cyngor Tref y Rhyl" – Cafodd diddordeb personol a rhagfarnol ei ddatgan gan y Cynghorydd B. Mellor. Y rheswm am y datganiad oedd bod yr Aelod perthnasol o'r Pwyllgor yn Aelod o Gyngor Tref y Rhyl.

## 3 CAIS I YMESTYN YR ODDEFEB I AELODAU CYNGOR TREF Y RHYL

Gadawodd y Cynghorydd B. Mellor y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar y cais a wnaed i ymestyn yr oddefeb, o 12 mis arall, a neilltuwyd ar 6 Mawrth 2015. Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi gofyn i'r Pwyllgor ailystyried yr oddefeb ac wedi gofyn am estyniad. Mae'r adroddiad gwreiddiol dyddiedig 6 Mawrth 2015 wedi'i atodi fel Atodiad 1.

Eglurodd y DSM bod cais wedi'i wneud yn gofyn i'r Pwyllgor i roi yr oddefeb yn unol â Rheoliad 2(a) a (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001, i'r Cyngor Llawn, gan gynnwys yr Aelodau newydd o'r Cyngor Tref, yn unol â'r telerau a roddwyd yn wreiddiol. Caniatawyd rhoi'r oddefeb a roddwyd ar 6 Mawrth 2015 yn unol â'r amodau a nodir isod:-

(i) mae'r Oddefeb yn berthnasol yn unig i faterion a ystyrir gan Gyngor Tref y Rhyl o ran Pwyllgor y Rhyl yn ei Blodau (neu beth bynnag fydd yr enw newydd);
(ii) mae'n rhaid i'r Aelodau barhau i ddatgan cysylltiad personol yn y cyfarfod(ydd) y caiff eitemau o'r fath eu trafod. Yna gallant siarad a phleidleisio i'r graddau y caniateir iddynt wneud hynny gan yr Oddefeb hon;
(iii) bydd yr Oddefeb yn gymwys am 12 mis o ddyddiad y cyfarfod Pwyllgor Safonau hwn (6 Mawrth, 2015). Wedi hynny, disgwylir i Glerc Cyngor Tref y Rhyl i wneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro am estyniad i'r Oddefeb ac i osod gweithgareddau Pwyllgor y Rhyl yn ei Blodau (neu unrhyw enw arall y bydd yn cael ei newid iddo);

(iv) ar ethol Aelod newydd, mae'n rhaid i Glerc Cyngor Tref y Rhyl roi gwybod i'r Swyddog Monitro yn ysgrifenedig er mwyn cymhwyso'r Oddefeb i'r Aelod newydd.

Ers caniatáu'r oddefeb wreiddiol cafodd y Cynghorwyr Stanley Frederick Walker, Jacquie McAlpine ac Anthony Thomas eu hethol i'r Cyngor a byddai angen eu cynnwys yn yr oddefeb.

Yn mynychu oedd Mr Gareth Nickels, Clerc Cyngor Tref y Rhyl, a rhoddodd grynodeb o'r cais, a manylion am gyfranogiad Aelodau Cyngor Tref y Rhyl a gweithgareddau mewn perthynas â Phwyllgor y Rhyl yn ei Blodau. Ar y pwynt hwn gadawodd Clerc Cyngor Tref y Rhyl y cyfarfod.

Cododd Aelodau'r Pwyllgor y pryderon a'r materion canlynol:-

- Aelod Annibynnol, J Hughes (JH) a gyfeirir at 4.(iv) o'r adroddiad *"wrth ethol Aelod newydd, mae'n rhaid i Glerc Cyngor Tref y Rhyl roi gwybod i'r Swyddog Monitro yn ysgrifenedig er mwyn cymhwyso'r Oddefeb i'r Aelod newydd".* Mynegodd bryder y gallai Aelod newydd ei benodi dderbyn goddefeb heb orfod eu cyfeirio at y Swyddog Monitro neu'r Pwyllgor Safonau, a allai gael ei ystyried yn fath o ragfarn neu wendid yn y broses.
- Teimlai'r Aelodau y dylid caniatáu goddefeb i bob Aelod presennol o Gyngor Tref y Rhyl, a bod y Swyddog Monitro yn cael gwybod yn ysgrifenedig ynglŷn ag ethol unrhyw Aelod neu Aelodau newydd, a dylai unrhyw benodiadau newydd fod yn destun Cais am Oddefeb.
- Cefnogodd y Pwyllgor yr awgrym bod y cyfnod o oddefeb yn dechrau ar 8 Ebrill 2016 tan 4 Mai, 2017 sef dyddiad Etholiadau'r Llywodraeth Leol.
- Nodwyd na fu unrhyw gyhoeddusrwydd anffafriol o ran Aelodau Cyngor Tref y Rhyl ac unrhyw gysylltiadau â Phwyllgor y Rhyl yn ei Blodau.
- Cymeradwyodd y Cadeirydd Cyngor Tref y Rhyl am eu gweithredoedd wrth gydymffurfio â'r gweithdrefnau priodol a chyflwyno Cais am Oddefeb. Teimlai'r Aelodau y byddai'n bwysig peidio ag anghefnogi Aelodau Cyngor Tref y Rhyl o gymryd rhan mewn gwella y gymuned leol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunwyd bod yr Oddefeb yn cael ei ganiatáu, yn unol â Rheoliad 2(a) a (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001, i bob Aelod presennol o Gyngor Tref y Rhyl, yn seiliedig ar y telerau a roddwyd yn wreiddiol. Yr Oddefeb i'w rhoi ar gyfer y cyfnod o 8 Ebrill 2016 i 4 Mai, 2017 a'r Swyddog Monitro i gael gwybod yn ysgrifenedig am

ethol unrhyw Aelod neu Aelodau newydd, a dylai unrhyw benodiadau newydd fod yn destun Cais am Oddefeb.

Mae aelodaeth bresennol Cyngor Tref y Rhyl i gynnwys:-

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Brian Blakeley, Mrs. Joan Butterfield, Mrs. Jeanette Chamberlain Jones, Mrs. Ellie M. Chard, Ms. Janette Hughes, Alan R. James, Mrs. Patricia M. Jones, Ms Jacquie McAlpine, Barry Mellor, Brian F. Moylan, Mrs. Win Mullen-James, Peter Prendergast, Stephen H. Ratcliffe, Miss Sarah L. Roberts, Andrew J. Rutherford, Miss Rebecca Siddall, Dave Simmons, William N. Tasker, Anthony Thomas, Y Parch Stanley Frederick Walker, a Miss Cheryl Williams.

***PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn rhoi’r oddefeb, yn unol â Rheoliad 2(a) a (d) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001, i bob Aelod presennol o Gyngor Tref y Rhyl, fel y rhestrir uchod, yn seiliedig ar y telerau a roddwyd yn wreiddiol.*
*(b) yn cytuno ar gyfnod y Goddefeb i ddechrau ar 8 Ebrill, 2016 tan 4 Mai, 2017, a*
*(c) bod y Swyddog Monitro yn cael gwybod yn ysgrifenedig ynglŷn ag ethol unrhyw Aelod neu Aelodau newydd, a dylai unrhyw benodiadau newydd fod yn destun Cais am Oddefeb.*
***(LJ i Weithredu)***

Dychwelodd y Cynghorydd Mellor a Chlerc Cyngor Tref y Rhyl i'r cyfarfod ar y pwynt yma a hysbyswyd nhw o benderfyniad y Pwyllgor.

## 4 GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOLL (COD YMDDYGIAD ENGHREIFFIOL) (CYMRU) (DIWYGIO) 2016

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar y newidiadau arfaethedig a wnaed i’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Cymru o ganlyniad i offeryn statudol diweddar a lofnodwyd gan y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus o’r enw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) wrth yr Aelodau o'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad a ddaeth yn sgil y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016, (y Gorchymyn). Roedd y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus wedi llofnodi’r Gorchymyn a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Mae’r Gorchymyn wedi gwneud newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol sy'n berthnasol i Aelodau Awdurdodau Lleol (ALl) yng Nghymru. Byddai'n rhaid i bob ALl i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer ei Aelodau, a oedd yn cynnwys pob un o ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Gall Awdurdodau Lleol fabwysiadu Cod Ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau ychwanegol i rai'r Model ar yr amod nad yw'r ychwanegiadau hynny’n amharu ar effaith darpariaethau’r Model.

Mae Cod Ymddygiad Sir Ddinbych yn wahanol i'r Model presennol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, roedd yn cynnwys gofyniad bod pob Aelod yn mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o leiaf unwaith bob tymor. Yn ail mae'n gosod gwerth o £25 lle mae'n rhaid datgan unrhyw roddion neu letygarwch. Mabwysiadwyd y ddarpariaeth hon er mwyn osgoi torri anfwriadol o'r Cod gan yr Aelodau. Awgrymwyd y dylid cadw'r amrywiadau hyn o'r Cod Enghreifftiol newydd. Cytunodd yr Aelodau bod datgan manylion yn ymwneud â gwerth y rhoddion neu letygarwch yn cael eu cyfleu i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Mae'r Gorchymyn wedi newid y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn y ffyrdd canlynol:-

- Paragraff 10(2)(b) wedi'i hepgor o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Mae'r paragraff hwn wedi achosi anawsterau yn y gorffennol o ystyried y gwahaniaeth rhwng bwriad y polisi o gynnwys, a bod â dehongliad llym o'r iaith a ddefnyddir yn y paragraff. Dehongliad llym o'r paragraff, fel y'i geiriwyd, yn gallu atal Aelodau rhag cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar eu ward tra mai bwriad y polisi sylfaenol oedd cyfyngu ar gwmpas y ddarpariaeth hon i benderfyniadau a wneir gan Gynghorwyr unigol wrth arfer swyddogaethau gweithredol. Mae cael gwared ar y paragraff wedi osgoi'r amwysedd hwn.

- Mae'r rhwymedigaeth ar Aelod i roi gwybod am achos posibl o dorri'r Cod i'r Ombwdsmon wedi'i ddileu. Mae'r gofyniad i roi gwybod am doriad o'r fath i'r Swyddog Monitro wedi'i gadw.

- Mae paragraff 15 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ymdrin â chofrestru diddordebau Aelodau ac fe'i diwygiwyd i egluro bod yn rhaid i unrhyw ddiddordeb a ddatgelir am y tro cyntaf gan Aelod gael ei gofnodi yn y gofrestr. Yr eithriad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned o'r gofyniad i gofrestru, o flaen llaw, yw cynnal rhai buddiannau ariannol ac eraill, a restrir ym mharagraff 10 (2)(a) o'r Cod.

- Trosglwyddodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 y cyfrifoldeb am gynnal y gofrestr o ddatgan cysylltiad Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned gan Swyddog Monitro y Cyngor Sir ar gyfer yr ardal at "Swyddog Priodol" pob Cyngor Tref a Chymuned o 1 Mai, 2015. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cod Enghreifftiol newydd ym mharagraffau 15(3) a 15(6).

Mae'r Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi gweithredu'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio Pwyllgorau Safonau) (Cymru) (Diwygio) 2016. Mae'r Rheoliadau hyn wedi gwneud nifer o ddiwygiadau technegol i reoliadau eraill sy'n ymwneud â'r agenda foesegol. Byddai Awdurdodau Lleol yn gallu sefydlu Pwyllgorau Safonau ar y Cyd petaent yn dymuno gwneud hynny. Byddai Pwyllgorau Safonau (PS) yn gallu gohirio cyhoeddi agendâu yn gysylltiedig â'u hystyriaeth o ymchwiliad camymddwyn. Roedd hyn eisoes yr arfer ar gyfer llawer o Bwyllgorau.

Mae'r Rheoliadau newydd hefyd yn rhoi pŵer i atgyfeirio adroddiad o gamymddwyn i Bwyllgorau Safonau Cynghorau eraill i benderfynu pa rai a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl mewn rhai amgylchiadau. Yn ogystal, mae categori cyffredinol o oddefeb yn cael ei gyflwyno a fyddai'n galluogi Pwyllgor Safonau i roi goddefeb os yw o'r farn ei bod yn briodol o dan yr holl amgylchiadau i

wneud hynny, lle nad yw'n bosibl fel arall i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person. Mae goddefeb a roddir o dan y categori hwn, a gafodd effaith barhaus, yn amodol ar adolygiad blynyddol.

Mynegodd y Cadeirydd y safbwynt bod y newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol wedi deillio i raddau oddi wrth y llwyth gwaith a brofir gan y SM, a chyfeiriwyd yn arbennig at nifer y cwynion blinderus a dderbyniwyd.

Mae'r ymatebion canlynol a dderbyniwyd mewn perthynas â chwestiynau a materion a godwyd gan y Cadeirydd:-

Tudalen 12 - Cyflwynodd y Dirprwy SM fanylion am y broses mewn perthynas â 4.4.2. Eglurodd y byddai'r SM yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd gan y SM yn nhermau lefel y toriad o dan sylw.

Tudalen 12 4.4.4 - Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cynnwys cynnal a chadw y Gofrestr o Ddatgan Cysylltiad Aelodau yn y cyrsiau hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Clercod y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned perthnasol, ac annog eu cyfranogiad mewn digwyddiadau hyfforddiant o'r fath a oedd yn ôl eu disgresiwn. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod cyfathrebu a diweddariadau rheolaidd yn cael eu hanfon i'r Clercod.

Tudalen 12. 4.5 Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod y Pwyllgorau Safonau ar y cyd, os wedi'u sefydlu, yn cael eu datblygu yn dilyn cytundeb ar y cyd ac ystyriaeth gan y Cynghorau Llawn priodol. Eglurwyd mewn achos lle mae Pwyllgorau Safonau yn oedi cyhoeddi agendâu, mai'r HLHRDS oedd y swyddog priodol sy'n gyfrifol am fynediad at wybodaeth a chyhoeddi papurau pwyllgor.

Ymatebodd y DSM i gwestiwn gan y Cadeirydd a mynegwyd amheuon ynghylch y drefn o adrodd yn uniongyrchol i'r SM o ran yr amser, costau a'r ymdrech sy'n ymwneud â'r broses. Ystyriwyd ei bod yn briodol cynnal y Gofrestr o Ddatgan Cysylltiad Aelodau ac i gael ei gadw gan Glerc y Cynghorau perthnasol, ac y gallai'r oedi i gyhoeddi'r agendâu ddarparu rhywfaint o eglurder.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, cytunwyd y byddai cyfeiriad at Gynghorau Tref a Chymuned yn cael ei ddiwygio i ddarllen fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Cytunodd yr Aelodau hefyd bod eitem fusnes yn ymwneud â Safonau'r Iaith Gymraeg, a'i oblygiadau ar y Cyngor, yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith y Dyfodol y Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, 2016.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn cymeradwyo, yn amodol ar nodi sylwadau'r Aelodau, y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai, 2016 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*
*(b) yn cytuno i ddiwygio'r cyfeiriad at Gynghorau Tref a Chymuned i ddarllen fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.*
*(c) yn cytuno bod eitem fusnes yn ymwneud â Safonau'r Iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith y Dyfodol y Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, 2016, a*

*(d) yn gofyn bod manylion yn ymwneud â gwerth y rhoddion neu letygarwch yn cael eu cyfleu i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.*

***(GW, LJ i Weithredu)***

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

***<u>SYLWER BOD Y RHAGLEN I'W DOSBARTHU 1 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD</u>***

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| **2 Rhagfyr 2016** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| **10 Mawrth 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Hygyrchedd Gwybodaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned – Adolygiad Blynyddol | Aelod Annibynnol Julia Hughes |
| | | |
| **30 Mehefin 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| | | |
| **22 Medi 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| **24 Tachwedd 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Diweddarwyd 22/08/2016 - SLW

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Medi 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 20215/16** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar gyfer y flwyddyn 2015/16.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau i ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ac i ddarparu eu sylwadau ac arsylwadau.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr aelodau'n ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am 2015/16.

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Bob blwyddyn, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau ei swyddfa wrth ymdrin â chwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

4.2 Mae dwy brif rôl i swyddfa'r Ombwdsmon. Y cyntaf yw ymchwilio i gwynion am gamweinyddu gan gyrff cyhoeddus. Yr ail, ac yn fwy perthnasol i'r Pwyllgor hwn, yw cyfrifoldeb swyddfa'r Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â honiadau o fynd yn groes i God Ymddygiad gan aelodau etholedig y Cynghorau Unedol, Dinas, Tref a Chymuned.

4.3 Mae Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon o dan y teitl '10 Mlynedd o Weithio i Wella' wedi'i atodi fel Atodiad 1.

4.4 Yr adroddiad hwn yw'r degfed adroddiad blynyddol ers sefydlu'r swyddfa yn 2006, ac mae'n cyfeirio at flwyddyn lawn gyntaf yr Ombwdsmon presennol yn y swydd, Mr Nick Bennett.

4.5 Yn ei adroddiad, mae'r Ombwdsmon yn croesawu argymhellion Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddwyn deddfwriaeth ymlaen, yn y Cynulliad

presennol, i wella pwerau presennol ei swyddfa. Mae hefyd yn croesawu newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, a deddfwriaeth sy'n ymwneud â Phwyllgorau Safonau sy'n eu galluogi i gyfeirio adroddiadau ar ymchwiliad o gamymddwyn i Bwyllgor Safonau awdurdod arall lle bo angen i osgoi gwrthdaro buddiannau, y gallu i awdurdodau i greu Pwyllgorau Safonau ar y Cyd a'r gofyniad i aelod apelio yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau i orfod ceisio am ganiatâd y Llywydd i ddechrau, neu aelod o'r panel a enwebwyd, Panel Dyfarnu Cymru.

4.6 Mae'r Ombwdsmon yn rhoi cyflwyniad gweledol defnyddiol o'r ystadegau sy'n ymwneud â gwaith ei swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf ar dudalennau 14 a 15 o'i adroddiad. Bydd yr Aelodau'n nodi, o ran nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â darparu gwasanaethau, bod gostyngiad yn y cwynion yn gyffredinol yn erbyn cyrff gwasanaethau cyhoeddus, er o fewn y cwymp bu cynnydd yn nifer y cwynion ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd.

4.7 O ran perthnasedd i'r pwyllgor hwn yw dadansoddiad o'r ystadegau cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad a nodir yn nhudalennau 21 i 24 o'r adroddiad. Cafwyd cyfanswm o 274 o gwynion yn 2015/16 o'i gymharu â 231 yn 2014/15, sef cynnydd o 19%. Mae dadansoddiad pellach o'r cwynion hyn yn datgelu mai ffactor pwysig yn y cynnydd hwn yw cynnydd o 49% yn nifer y cwynion sy'n deillio o Gynghorau Cymuned, Dinas a Thref o 106 yn 2014/15 i 158 yn 2015/16.

4.8 Mae'r Ombwdsmon yn categoreiddio cwynion Cod Ymddygiad ac yn rhoi dadansoddiad o gwynion yn ôl categori. Yn 2015/16 cafodd y cwynion eu dadansoddi fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | 41% |
| Uniondeb | 16% |
| Datgelu a chofrestru cysylltiadau | 14% |
| Atebolrwydd a bod yn agored | 14% |
| Uniondeb a phriodoldeb | 7% |
| Dyletswydd i gynnal y gyfraith | 6% |
| Anhunanoldeb a stiwardiaeth | 2% |

Roedd y nifer fwyaf o gwynion yn disgyn o dan y categori "hyrwyddo cydraddoldeb a pharch". Mae'r categori hwn yn cyfrif am 41% o'r holl gwynion o'i gymharu â 35% yn y flwyddyn flaenorol. Mae bron bob amser yn cyfrif am y gyfran uchaf o gwynion a dderbynnir.

4.9 Caeodd swyddfa'r Ombwdsmon 265 o achosion yn 2015/16. Byddai'r ffigur hwn yn cynnwys cwynion newydd y cawsant eu trin o fewn y flwyddyn a hefyd rhai cwynion a oedd wedi eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol. O'r 265 o gwynion, mae'r mwyafrif helaeth sef 213, wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Mae hyn yn golygu bod yr Ombwdsmon naill ai wedi penderfynu nad oedd tystiolaeth prima facie o dorri'r Cod, fod y toriad honedig ddim yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad ac felly'n annhebygol o ddenu sancsiwn, neu fod achos y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol h.y. cyn iddynt

gael eu rhwymo gan y Cod, neu gyfeirio’r mater yn ôl er mwyn penderfynu arno’n lleol.

4.10 Roedd 15 cwyn wedi’u tynnu'n ôl a chafodd 10 o ymchwiliadau eu dirwyn i ben. Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y cwynion bu lleihad yn y nifer a gafodd eu hymchwilio yn llawn. Roedd 27 o achosion wedi eu hymchwilio yn llawn yn 2015/16 o’i gymharu â 44 o ymchwiliadau o'r fath yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Ombwdsmon yn priodoli’r gostyngiad hwn yn sgîl cyflwyno prawf lles y cyhoedd.

4.11 O'r 27 o achosion, arweiniodd 11 at ganfyddiad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri a 10 achos lle nad oedd angen gweithredu arnynt ymhellach. Roedd 3 achos wedi eu cyfeirio at y Pwyllgorau Safonau i'w hystyried a 3 i Banel Dyfarnu Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn gosod allan mewn tabl ar dudalen 22 o'i adroddiad ganlyniadau'r achosion hynny a gafodd eu penderfynu arnynt ar adeg ysgrifennu ei adroddiad.

4.12 Mae Atodiad C i adroddiad yr Ombwdsmon yn cynnwys dadansoddiad o achosion a gaewyd yn 2015/16 gan awdurdod lleol. O’r 112 o achosion a gaewyd mewn perthynas ag awdurdodau unedol roedd 5 yn ymwneud â Chynghorwyr Sir Ddinbych, a phob un wedi’u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol heb orfod cynnal ymchwiliad. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'r 2 gwyn a gafodd eu cau yn y flwyddyn flaenorol, pob un ohonynt wedi eu tynnu'n ôl neu eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol.

4.13 Mae dadansoddiad o'r 152 o achosion wedi'u cau yn ymwneud â Chynghorau Dinas, Tref neu Gymuned, yn dangos bod yna dair cwyn am aelodau o gynghorau o’r fath yn Sir Ddinbych.

4.14 Mae'r Ombwdsmon hefyd wedi adrodd ar berfformiad swyddfa’r Ombwdsmon o ran yr amser a gymerir i ystyried cwynion Cod Ymddygiad.

4.15 Mae'r Ombwdsmon yn gosod dau darged o ran amserlenni. Y cyntaf yw y dylai o leiaf 90% o'r holl achwynwyr gael gwybod o fewn 4 wythnos a fydd yr Ombwdsmon yn ymdrin â’u cwyn a’i peidio. Mae’r cyfnod o 4 wythnos yn rhedeg o'r dyddiad y mae digon o wybodaeth yn cael ei dderbyn. Yn ystod blwyddyn 2014/15, llwyddodd yr Ombwdsmon i roi gwybod i achwynwyr o fewn 4 wythnos mewn perthynas â 79% o gwynion a dderbyniwyd. Eleni, mae'r nifer wedi codi i 91% o achwynwyr. Nodir hefyd bod 96% o achwynwyr yn cael gwybod o fewn 5 wythnos.

4.16 Yr ail darged yw dod â phob achos i gasgliad o fewn 12 mis o bwynt y gwneir penderfyniad i ymgymryd â chwyn ac i ddechrau ymchwiliad. Mae swyddfa'r Ombwdsmon wedi llwyddo i gyflawni cyfradd llwyddiant o 100% ar gyfer cwblhau ymchwiliad Cod Ymddygiad o fewn 12 mis yn ystod y flwyddyn 2014/15. Mae hyn wedi cael ei ailadrodd eleni, ond mae’r Ombwdsmon hefyd yn nodi bod 85% wedi eu cwblhau o fewn 9 mis yn 2015/16 o’i gymharu â 79% yn 2014/15.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Ni ofynnir i'r Pwyllgor wneud penderfyniad.

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ni fu unrhyw ymgynghori gyda'r Pwyllgor Archwilio.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Does dim angen gwneud penderfyniad.

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2015/16

10 MLYNEDD
O WEITHIO I WELLA

10 MLYNEDD

O WEITHIO I WELLA

# Adroddiad Blynyddol 2015/16

o

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

A osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru
o dan baragraff 14 o Atodlen 1
i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Adroddiad Blynyddol 2015/16


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon | 5 |
| **2** | Fy Rôl yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 8 |
| **3** | Deng Mlynedd o Wasanaeth yr Ombwdsmon | 12 |
| **4** | Y Gwasanaeth Cwynion | 14 |
| **5** | Gwella Gwasanaethau | 25 |
| **6** | Llywodraethu ac Atebolrwydd | 28 |
| **7** | Gweithgareddau Eraill | 31 |
| **8** | Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb | 36 |
| **Atodiad A** | Cwynion am Gyrff Cyhoeddus: Crynodebau o Achosion Adroddiadau Lles y Cyhoedd | 45 |
| **Atodiad B** | Cwynion am Gyrff Cyhoeddus: Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau fesul Corff Cyhoeddus | 55 |
| **Atodiad C** | Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad: Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau fesul Awdurdod Lleol | 67 |

# 1. Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon



Pleser mawr yw cyflwyno'r adroddiad hwn ynghylch y flwyddyn 2015/16, sef fy mlwyddyn lawn gyntaf yn y swydd, a degfed Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ers i'r swyddogaeth gael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2006.

Credaf fod dau brif ddiben i'm Hadroddiad Blynyddol:

1. rhoi gwybod am berfformiad fy swyddfa a'i gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf
2. tynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru at y negeseuon sy'n deillio o ganlyniadau'r cwynion a gyflwynir imi ynghylch unrhyw feysydd sy'n peri pryder o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus y genedl.

Fodd bynnag, gan fod y swydd yn dathlu ei dengmlwyddiant, yn yr Adroddiad Blynyddol hwn mae hefyd yn briodol myfyrio ynghylch y daith ers 1 Ebrill 2006, o fod yn newydd-ddyfodiad i ddod yn gynllun ombwdsmon aeddfed a berchir yn fawr. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych yn ôl ar rai o brif ddatblygiadau'r degawd diwethaf.

Er bod cynllun yr Ombwdsmon yng Nghymru yn cael ei barchu gartref a thramor, rwyf yn teimlo'n gryf bod rhaid inni sicrhau ei fod yn addas i'r diben nid dim ond yn y dyddiau sydd ohoni ond yn y dyfodol. Mae'n bwysig ein bod yn deall taith y swyddogaeth o'r gorffennol; ond mae angen inni wneud hynny yng nhyd-destun y gwaith o sicrhau bod gan Gymru'r cynllun ombwdsmon modern y mae'n ei haeddu ar gyfer y dyfodol. Dyna pam yr oeddwn yn arbennig o falch bod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a bod Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft wedi deillio o hynny. Rwyf yn trafod y pwnc hwn yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad, ond hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i Mrs Jocelyn Davies, AC, sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac i bob aelod o'r Pwyllgor am eu gwaith diwyd ar y mater hwn. Rwyf wir yn gobeithio y bydd y Pumed Cynulliad newydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r Bil drafft, gan ei gyflwyno'n un o'r deddfau cyntaf ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016.

Er fy mod yn teimlo'n gryf fod angen i bwerau OGCC gael eu cryfhau a'u hymestyn drwy gyfrwng deddfwriaeth newydd, ers imi ymgymryd â'r swydd bûm hefyd yn ystyried pa fentrau y gallaf eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r materion y mae'r swyddfa yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fel y nodais y llynedd, roedd y cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfanswm y gwaith achos yn destun pryder, ac roeddwn yn ceisio ffyrdd a fyddai'n ein galluogi i 'newid y duedd'. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynais newidiadau o ran y staff yn fy swyddfa. Newid allweddol o blith y rhain oedd cyflwyno swyddi estynedig i nifer o staff ymchwilio, a fyddai'n cynnwys dyletswyddau 'swyddog gwella'. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar yr arferion gorau, datblygiad diwylliannol corfforaethol, a rhoi terfyn ar gylchoedd o ddarparu gwasanaethau gwael. Er bod y trefniadau cynnar yn dal i ymwreiddio, bûm yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed. I ategu'r newidiadau hyn, roeddwn am wella ein gweithgareddau cyfathrebu allanol, a chynyddais adnoddau'r swyddfa i'r perwyl hwnnw. Roeddwn yn arbennig o falch ein bod wedi gallu cyflwyno adroddiad thematig eleni. Tynnodd hwn sylw'r cyhoedd at faes sy'n peri pryder yn sgil ymchwiliadau fy swyddfa i ofal o ansawdd gwael 'y tu allan i oriau' mewn ysbytai.

Ar yr un pryd ag yr oedd y gwaith uchod yn mynd rhagddo, roeddwn i a'm staff yn cydweithio i lunio cynllun strategol tair blynedd newydd ar gyfer y cyfnod hyd at 2018/19. Arweiniodd y gwaith hwn at Weledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Nodau Strategol newydd. Rwyf yn hynod fodlon ar ganlyniad y gwaith hwn ac rwyf yn ddiolchgar i'm tîm am y ffordd frwdfrydig y bu'n ymgysylltu â'r broses. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i Aelodau Panel Cynghori OGCC a fu hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun.

Gwnaethom hefyd barhau i ymgymryd â nifer o weithgareddau allgymorth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys rhoi sylw arbennig i wella ein darpariaeth i'r bobl hynny sy'n fyddar neu sydd ag anawsterau o ran eu clyw. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith allgymorth yn ystod y flwyddyn ar gael yn fy 'adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb', yn Adran 8 o'r adroddiad hwn.

Fodd bynnag, o bell ffordd gweithgaredd mwyaf y swyddfa yn ystod y flwyddyn oedd y busnes craidd o ystyried y cwynion a wnaed i mi. Tra ar y cyfan yr oedd llwyth achosion y swyddfa (sy'n cynnwys ymholiadau a chwynion ill dau) i fyny 4%, yn ddiddorol, ac ond am yr ail dro ers i'r swyddfa gael ei chreu, cafwyd gostyngiad yn y cwynion a dderbyniwyd am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus (i lawr 4% o gymharu â 2014/15). Yn nodedig, yr unig sector a welodd gynnydd yn nifer y cwynion i fy swyddfa oedd y GIG yng Nghymru, a oedd i fyny 4%; disgynodd cwynion am y sectorau eraill i wahanol raddau.

Yr wyf wedi siarad o'r blaen am fy nymuniad i sicrhau bod adnodd fy swyddfa ond yn cael ei roi at ystyried y materion hynny sy'n peri pryder go iawn yn hytrach na chwynion dibwys am y Cod Ymddygiad. Mae'n siom arbennig i mi felly bod cwynion sy'n honni bod cynghorwyr wedi torri

Cod eu hawdurdod wedi codi 19%. Mae hyn yn priodoli yn unig i gynghorau cymuned a thref, lle mae cwynion am aelodau o'r cynghorau hyn wedi codi 49%. Yr wyf wedi bod yn arbennig o falch bod y prawf budd y cyhoedd y cyflwynais y llynedd wedi helpu fy swyddfa i ddelio â'r cwynion hyn mewn modd effeithiol. Rwy'n trafod hyn ymhellach yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r staff a'r Panel Cynghori am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. I nifer o aelodau o'm staff, bu newidiadau uniongyrchol i'w swyddi yn y cyfnod hwn, a chafwyd effeithiau cysylltiedig i weithwyr eraill. Rwyf yn hynod ddiolchgar iddynt am eu hagwedd gadarnhaol at y trefniadau newydd a'u proffesiynoldeb parhaus yn ein nod cyffredin o sicrhau cyfiawnder gweinyddol i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Nick Bennett
Ombwdsmon

# 2. Fy Rôl yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel Ombwdsmon, mae gennyf ddwy rôl benodol. Yr un gyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad. Rwyf yn annibynnol ar bob corff llywodraethol ac mae'r gwasanaeth yr wyf yn ei ddarparu yn un di-dâl.

## Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, rwyf yn ystyried cwynion am gyrff sydd, yn gyffredinol, yn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae'r mathau o gyrff y gallaf ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys ymarferwyr cyffredinol a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai);
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd a'r cyrff y mae'n ei noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion ynghylch gwasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol a drefnir neu a ariennir yn breifat.

Wrth ystyried cwynion, rwyf yn ceisio canfod a yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu'n anystyriol, neu a ydynt wedi cael gwasanaeth gwael o ganlyniad i fai ar ran darparwr y gwasanaeth. Bydd sylw hefyd yn cael ei roi i ganfod p'un a yw darparwr y gwasanaeth wedi gweithredu yn unol â'r gyfraith a'i bolisïau ei hun. Os bydd cwyn yn un ddilys, byddaf yn argymell camau unioni priodol. Y prif ddull a ddefnyddir wrth argymell camau unioni, pan fo'n bosibl, yw rhoi'r achwynydd (neu'r person sydd wedi dioddef yr anghyfiawnder) yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r broblem wedi codi. Hefyd, os byddaf yn gweld tystiolaeth o wendid systemig yn ystod fy ymchwiliad, bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno er mwyn lleihau'r tebygolrwydd yr effeithir ar eraill yn yr un modd yn y dyfodol.

## Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Newydd?

Rwyf wedi amlinellu uchod brif nodweddion fy swydd yn Ombwdsmon. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i bwerau'r Ombwdsmon. Yn dilyn ei adroddiad ar yr ymchwiliad, cyhoeddwyd Bil OGCC Drafft.

Roeddwn yn hynod falch o weld bod y cynigion a ganlyn wedi'u cynnwys yn y Bil OGCC drafft, sy'n cryfhau pwerau presennol OGCC:

- y gallu i ymgymryd ag ymchwiliadau pen a phastwn;
- y gallu i dderbyn cwynion ar lafar;
- y gallu i ystyried cwynion ynghylch ysbytai preifat mewn amgylchiadau pan fo llwybr claf wedi cynnwys triniaeth a/neu ofal gan ddarparwyr gofal iechyd cyhoeddus a phreifat;
- rôl awdurdod safonau cwynion.

Ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid gynnal ymgynghoriad wedyn â'r cyhoedd ynghylch y Bil Drafft, yn y cyflwyniad i'r adroddiad canlyniadol, nododd Cadeirydd y Pwyllgor, Mrs Jocelyn Davies, AC, fod y Pwyllgor o'r farn y dylai rôl yr Ombwdsmon gael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth Gymreig, yn hytrach na thrwy ddiwygio Deddf 2005. Y nod felly oedd creu un darn o ddeddfwriaeth ddwyieithog a fyddai'n diddymu Deddf OGCC 2005. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion, a'r cyntaf o'r rheini oedd:

> Argymhelliad 1 - Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Pwyllgor o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol gyflwyno'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft cyn gynted â phosibl yn y Pumed Cynulliad.
> (Ffynhonnell: Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft (Mawrth 2016))

Rwyf yn falch iawn o ganlyniad gwaith Pwyllgor Cyllid y Cynulliad. Rwyf wedi gwneud sylwadau'n gyhoeddus mewn nifer o fannau fy mod o'r farn ei bod yn hollbwysig inni sicrhau bod sail ddeddfwriaethol gadarn i OGCC, y gallwn ddatgan ein bod wir yn barod ar gyfer y dyfodol, a bod deddfwriaeth:

- yn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau mewn cymdeithas sy'n heneiddio a lle y ceir lefelau uwch o fod yn agored i niwed corfforol ac emosiynol;
- yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus a'u diwygio gan sicrhau gwerth rhagorol am arian;
- yn sicrhau y bydd dinasyddion o gefndiroedd mwy difreintiedig yn ei chael yn haws cyflwyno cwyn;
- yn cryfhau llais y dinesydd ac yn sicrhau, pan fo'n bosibl, y bydd prosesau'n dilyn y dinesydd yn hytrach na'r sector neu'r seilo.

Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd y Pumed Cynulliad yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y Pwyllgor, ynghyd â'r rhai eraill yn ei adroddiad, yn ddi-oed ar ôl etholiad Mai 2016, ac y bydd deddfwriaeth Gymreig newydd i'w gweld yn fuan.

Mae'r ddau adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid y cyfeirir atynt uchod ar gael ar wefan y Cynulliad: cynulliad.cymru

## Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad

O dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000, a Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, rwyf yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod. Gallaf ystyried cwynion am ymddygiad aelodau:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefi sirol
- cynghorau cymuned
- awdurdodau tân
- awdurdodau parciau cenedlaethol a
- phanelau heddlu a throseddu.

Mae gan yr holl awdurdodau hyn God Ymddygiad sy'n nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid i'r aelodau ddilyn egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig mewn bywyd cyhoeddus.

Os bydd cynghorydd sir yn dymuno cwyno am gynghorydd sir arall yn ei awdurdod ei hun, byddaf yn disgwyl iddynt gyflwyno'r cwyn i Swyddog Monitro'r awdurdod hwnnw i ddechrau, oherwydd efallai ei bod yn bosibl datrys y mater yn lleol heb fy nghynnwys i.

## Gwelliannau i Ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol

Roeddwn yn falch iawn o weld gwelliannau Llywodraeth Cymru i'r ddeddfwriaeth (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016). Isod, rwyf yn tynnu sylw at rai o'r prif newidiadau sy'n effeithio ar fy rôl mewn cysylltiad â'r cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad ac sy'n berthnasol i'm swydd:

- **Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 -** Mae darpariaeth ar gyfer nifer o welliannau mewn cysylltiad â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ac roeddwn yn falch o weld pob un ohonynt. Efallai'r prif welliant o blith y rhain, o'm safbwynt i, yw'r ffaith bod y gofyniad blaenorol a oedd yn gosod rhwymedigaeth ar aelod o awdurdod lleol i roi gwybod i mi, yn OGCC, am achos posibl o dorri'r Cod wedi'i hepgor ohono, ond mae rhwymedigaeth o hyd i roi gwybod i'r swyddog monitro am faterion o'r fath. Fodd bynnag, os bydd mater yn parhau heb ei ddatrys wedi i'r swyddog monitro ei ystyried, neu os yw'r gŵyn a gyflwynwyd yn un ddifrifol, gellir atgyfeirio'r gŵyn ataf i'w hystyried. Mae hyn bellach yn ategu'r trefniant anffurfiol ar gyfer datrys cwynion lefel isel gan aelodau yn erbyn ei gilydd y mae'r swyddfa hon wedi cytuno arno'n ddiweddar â chynghorau sir neu gynghorau bwrdeistrefi sirol. Nid yw'r gwelliant hwn yn rhwystro aelod rhag rhoi gwybod i mi am achos a all fod yn ddifrifol o dorri'r Cod.

- **Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno nifer o welliannau mewn cysylltiad â:

  - Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001
  - Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001
  - Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

  Yn arbennig, rwyf yn falch:

  - bod darpariaeth wedi'i gwneud i alluogi pwyllgor safonau neu swyddog monitro, â chytundeb ysgrifenedig blaenorol Cadeirydd y pwyllgor safonau, atgyfeirio'r adroddiad am ymchwiliad ynghylch camymddwyn at bwyllgor safonau awdurdod arall er mwyn iddo ddyfarnu arno, gan anelu at oresgyn unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a all fod gan bwyllgor safonau wrth ymdrin â'r gŵyn sy'n cael ei hystyried
  - bod dau awdurdod perthnasol neu ragor yn gallu sefydlu cyd-bwyllgor safonau erbyn hyn
  - y bydd angen yn y dyfodol i aelod sy'n ceisio apelio yn erbyn dyfarniad pwyllgor safonau gael caniatâd Llywydd y Panel Dyfarnu, neu aelod enwebedig ohono, yn gyntaf.

Mae'r rhain i gyd yn ddatblygiadau y mae'r swyddfa hon wedi siarad o'u plaid ac wedi'u cefnogi mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac, yn wir, â swyddogion monitro. Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd y gwelliannau hyn yn arwain at system safonau moesol fwy effeithiol a gostyngiad yn nifer y cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a gyflwynir i'm swyddfa ac o ran yr adnoddau staff cysylltiedig.

# 3. Deng Mlynedd o Swydd yr Ombwdsmon – Hanes yr Adroddiadau Blynyddol

**Adam Peat yw'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru cyntaf**



## 2006/07

Mae'r daith yn dechrau – daeth Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i rym ar 1 Ebrill 2006, gan greu un gyrchfan ar gyfer cyflwyno cwynion ynghylch darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cymerodd le swyddi blaenorol y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, a'r Ombwdsmon Tai Cymdeithasol.



## 2007/08

Am y tro cyntaf cyhoeddir adroddiadau lles y cyhoedd ar ymchwiliadau iechyd (o dan ddeddfwriaeth flaenorol y Comisiynydd Iechyd, roedd cyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau iechyd wedi'i wahardd).

Canolbwyntir ar roi canllawiau i gyrff cyhoeddus ar arferion gweinyddol da: Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda; ac Egwyddorion Unioni Cam.

**Peter Tyndall yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru erbyn hyn**



## 2008/09

Cyflwynir Cynllun Strategol newydd, sy'n pwysleisio: bod yn wasanaeth hygyrch, yn arbennig i'r rhai sydd mewn amgylchiadau sy'n peri eu bod yn agored i niwed; a symleiddio gweithdrefn gwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn ymdrin â'r heriau a wynebir oherwydd cynnydd yn y llwyth achosion.



## 2009/10

Y Tîm Cynghori ar Gwynion yn cael ei greu gan roi mwy o bwyslais ar ofal cwsmeriaid, 'rheoli disgwyliadau' a dull rhagweithiol o Ddatrys yn Gynnar (Ateb Sydyn).

Canllawiau'n cael eu rhoi i gynghorwyr ynghylch y cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol.



## 2010/11

Erbyn hyn, cwynion sy'n ymwneud ag iechyd yw chwarter yr holl gwynion a gyflwynir i'r swyddfa.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad i gynnig mynd i'r afael ag anomaledd y diffyg cyfiawnder gweinyddol i bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rhai sy'n cael gwasanaethau gan hosbisau.



## 2011/12

Yn sgil gwaith y grŵp a oedd yn cael ei gadeirio gan yr Ombwdsmon, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Polisi Enghreifftiol a Chanllawiau ynghylch ymdrin â chwynion, i'w mabwysiadu gan bob darparwr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Lansio gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru er mwyn helpu pobl i gyflwyno cwynion i gyrff cyhoeddus am wasanaethau gwael.

Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yn cael ei gyflwyno a'r drefn adolygiad annibynnol yn cael ei ddileu; daw'r Ombwdsmon yn unig adolygydd annibynnol cwynion sy'n ymwneud ag iechyd.

**Peter Tyndall yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Daw Margaret Griffiths yn Ombwdsmon Dros Dro o fis Rhagfyr 2013**

**Nick Bennett yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o fis Awst 2014**



## 2012/13

Mae'r Ombwdsmon yn cynnig y dylid diwygio Deddf OGCC.

Mae'r Ombwdsmon yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ynghylch diffyg dull o wneud iawn ar gyfer pobl sy'n cael gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan sefydliadau'r sector preifat, gan gyfeirio'n benodol at ofal iechyd preifat.

Mae'r Ombwdsmon yn adolygu ei drefniadau llywodraethu ei hun ac yn creu Panel Cynghori.



## 2013/14

Mae cyfnod pontio'n dechrau pan fo'r Ombwdsmon Dros Dro yn ymgymryd â'r swydd.

Mae'r duedd o nifer y cwynion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn parhau, wrth i nifer y cwynion sy'n ymwneud ag iechyd gynyddu 146% dros bum mlynedd. Erbyn hyn, cwynion sy'n ymwneud ag iechyd yw 36% o'r holl gwynion a gyflwynir i'r swyddfa.

Mae cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn dechrau peri pryder; gwelir cynnydd o 19% ers y flwyddyn flaenorol (er bod y nifer wedi cynyddu o sail is o ran nifer y cwynion o gymharu â meysydd cwynion eraill).



## 2014/15

Erbyn hyn mae'r Ombwdsmon yn gallu ystyried cwynion am ddarparwyr gofal annibynnol pan fo'r gofal yn cael ei ariannu gan yr unigolyn ei hun, yn ogystal â hosbisau a gofal cartref.

Mae Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn dileu cyfnod yr adolygiad annibynnol; daw'r Ombwdsmon yn unig adolygydd annibynnol cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn cytuno i gynnal adolygiad o bwerau'r Ombwdsmon.

Mae'r Ombwdsmon yn cychwyn prosiect arloesedd i geisio creu manteision effeithlonrwydd yn wyneb cynnydd parhaus yn llwyth achosion y cwynion. Gwneir gwaith arall i 'newid y duedd', sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar gasglu data ac adolygu adnoddau staff.

**Nick Bennett yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

## 2015/16

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drafft.

Ceir newidiadau o ran staff, sydd i gynnwys cyflwyno rôl 'swyddog gwella' a rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu allanol a mewnol.

Ac ymlaen i'r deng mlynedd nesaf ...

... mae pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u cryfhau erbyn hyn ac mae'r Ombwdsmon yn gweithredu yn ôl Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2016 ????

2006 10 2016 · MLYNEDD ·

**Dathlu 10 mlynedd**

Wrth gydnabod deng mlynedd o swydd yr Ombwdsmon, roeddwn yn hynod ddiolchgar i'r Fonesig Rosemary Butler, y Llywydd, am gytuno i gynnal digwyddiad i ddathlu'r dengmlwyddiant yn adeilad y Senedd. Roeddwn wrth fy modd fod nifer o Aelodau'r Cynulliad, nifer o gydweithwyr ymhlith ombwdsmyn y sector cyhoeddus, rhanddeiliaid eraill a staff yn gallu ymuno â mi i nodi'r achlysur. Bu'n gyfle da i ystyried llwyddiannau'r swyddfa yn y gorffennol yn ogystal ag edrych tua'r dyfodol.



Y Fonesig Rosemary Butler, y Llywydd, yn croesawu Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a chydweithwyr ymhlith ombwdsmyn y sector cyhoeddus yn y Senedd

# 5. Y Gwasanaeth Cwynion

**Y Flwyddyn wedi'i Chrynhoi**

WEDI'U DERBYN

**5,999**
**o YMHOLIADAU a CHWYNION**
**i fyny 4%** ar 2014/15

**3,731**
Ymholiad
**i fyny 8%**

**2,268**
Cwyn
**i lawr 1%**

**1,992**
Cwyn am Gorff Cyhoeddus
**i lawr 4%**

5 Prif pwnc
- 36% Iechyd
- 13% Tai
- 10% Cynllunio
- 9% Gwasanaethau Cymdeithasol
- 7% Delio â chwynion

**276**
Code of Conduct Complaints
**i fyny 19%**

5 prif pwnc
- 41% Hybu Cydraddoldeb a pharch
- 16% Uniondeb
- 14% Atebolrwydd a bod yn agored
- 14% Datgelu a chofrestru buddiannau
- 7% Gwrthrychedd a phriodoldeb

**2,714**

**Llwyth Achosion Cwynion 2015/16**
(sy'n cynnwys 446 o achosion a ddygwyd ymlaen o 2014/15)

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

## 2,714 Llwyth Achosion Cwynion 2015/16
(sy'n cynnwys 446 o achosion a ddygwyd ymlaen o 2014/15)

WEDI'U CAU

**2,315 CWYN**
**i fyny 3%** ar 2014/15

**2,050** Cwyn am Gorff Cyhoeddus **i fyny 2%**

**265** Cwyn Cod Ymddygiad **i fyny 11%**

**521** wedi'u ystyried mewn manylder/ ymchwiliad **i fyny 22%**

**37** wedi'u hymchwilio **i lawr 31%**

**397** datrysiad neu'n ddilys **i fyny 4%**

**O'r rhain:**
- **55%** Iechyd
- **10%** Delio â chwynion
- **9%** Tai
- **8%** Gwasanaethau Cymdeithasol
- **6%** Cynllunio

**18** tystiolaeth o doriad y Cod **i lawr 6%**
(un achos o wahaniaeth)

**O'r rhain:**
- **39%** Datgelu a chofrestru buddiannau
- **17%** Gwrthrychedd a phriodoldeb
- **17%** Uniondeb
- **16%** Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- **11%** Hybu Cydraddoldeb a pharch

## Gwaith Achosion Cyffredinol

Cyfanswm yr ymholiadau a'r cwynion (cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol) oedd 5,999 yn ystod 2015/16, sy'n gynnydd o 4% o'r sefyllfa yn 2014/15. Fel y gwelir o'r siart isod, sy'n cymharu'r sefyllfa bresennol â'r sefyllfa bum mlynedd yn ôl, bu cynnydd o 54%. Fodd bynnag, mae arwyddion bod y cynnydd a gafwyd ers i'r swyddfa ddod i fodolaeth yn dechrau aros yn ei unfan. Rwyf yn trafod yr agweddau amrywiol ar hyn yn fwy manwl isod.

Cyfanswm yr Ymholiadau a'r Cwynion a gafwyd fesul blwyddyn




## Ymholiadau

Bu'r swyddfa'n ymdrin â 3,731 o ymholiadau yn ystod 2015/16, o gymharu â 3,470 yn y flwyddyn flaenorol (sef cynnydd o 8%). Cafwyd cynnydd o 100% o gymharu â'r sefyllfa bum mlynedd yn ôl. Mae'n werth nodi mai ym mis Chwefror 2016 y cyflwynwyd y nifer uchaf erioed o ymholiadau i'r swyddfa.

Cyswllt a wneir gan ddarpar achwynydd sy'n gofyn ynghylch y gwasanaeth a ddarperir, ac nad yw, yn y pen draw, yn arwain at gyflwyno cwyn ffurfiol imi yw ymholiad. Yn y pwynt hwn yn ein gwasanaeth, byddwn yn rhoi gwybod i bobl sut i gyflwyno cwyn imi neu, pan fo'r mater y tu hwnt i'm hawdurdodaeth, yn cyfeirio'r sawl sy'n cyflwyno'r ymholiad at y sefydliad priodol sy'n gallu ei helpu. Pan fo'n briodol, bydd y Tîm Cynghori ar Gwynion hefyd yn ceisio datrys problem yn y cam ymholi heb drosglwyddo'r mater i'r cam o gyflwyno cwyn ffurfiol.

Gwnaethom bennu targed i ni ein hunain o ateb y galwadau i'r dderbynfa dros y brif linell ffôn cyn pen 30 eiliad yn 95% o'r achosion. Unwaith eto, roedd perfformiad y Tîm yn drawiadol yn hyn o beth, gan iddo ateb 99% o'r galwadau o fewn y cyfnod hwn.

Rwyf yn falch iawn ein bod wedi cynnal gwasanaeth prydlon ar y rheng flaen er gwaethaf y cynnydd parhaus yn nifer yr ymholiadau a gyflwynir i'r swyddfa.

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus

Hon oedd yr ail flwyddyn yn unig yn neng mlynedd o hanes swydd OGCC (2008/09 oedd y flwyddyn gyntaf) pan gafwyd gostyngiad yn nifer y cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cawsom 1,992 o gwynion o'r fath yn 2015/16, o gymharu â 2,065 yn 2014/15, sef gostyngiad o 4%. Nid oes rheswm penodol y gellir ei ddirnad am y gostyngiad hwn, ac roedd nifer y cwynion a gafwyd o un mis i'r llall yn ystod y flwyddyn yn ansefydlog, gan amrywio o fod yn isel un mis i fod yn uchel y mis nesaf. Rwyf yn trafod y cwynion a gafwyd fesul sector yn fwy manwl isod.

**Dadansoddiad o'r cwynion fesul sector**

Cynghorau sir sy'n darparu'r ystod ehangach o wasanaethau ymysg y rhai sy'n rhan o'm hawdurdodaeth. Gan adlewyrchu'r sefyllfa arferol, ac fel y disgwylir, y sector hwn a oedd yn gyfrifol am nifer fwyaf y cwynion a gefais. Er hynny, roeddwn yn falch o weld gostyngiad o 3% yn nifer y cwynion am gynghorau sir dros y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â 2014/15.

Yn wir, bu gostyngiad yn nifer y cwynion ar draws pob sector, ac eithrio un. Sector y GIG yng Nghymru oedd yr eithriad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys cwynion am fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, meddygon teulu a deintyddion. Bu cynnydd o 4% yn nifer y cwynion am gyrff iechyd o gymharu â 2014/15 (798 o gymharu â 769). O'r 798 o gwynion am gyrff iechyd, roedd 661 ohonynt yn ymwneud â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae amrywiad o fewn y ffigur hwn: cafwyd llai o gwynion am rai byrddau/ymddiriedolaethau iechyd o gymharu â'r llynedd, ond cafwyd cynnydd amlwg yn nifer y cwynion am eraill, yn arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad y cwynion a gafwyd fesul sector.

Cwynion fesul sector cyrff cyhoeddus




*Roedd OGCC yn gallu derbyn cwynion ynghylch gofal a hunan ariennir o 1 Tachwedd 2014

Tudalen 35

**Cwynion am gyrff cyhoeddus fesul pwnc**

Gall fod sawl agwedd ar y cwynion a gyflwynir imi; fodd bynnag, mae'r siart isod yn dangos prif bwnc y cwynion yr wyf wedi'u cael dros y flwyddyn ddiwethaf. Unwaith eto, iechyd oedd prif destun llwyth achosion y swyddfa, ond eleni roedd 36% o'r llwyth achosion yn ymwneud ag iechyd o gymharu â 34% yn 2014/15. Rydym eisoes wedi gweld y bu cynnydd yn nifer y cwynion am gyrff y GIG; fodd bynnag, mae canran y cynnydd yn deillio hefyd o'r ffaith y bu llai o gwynion am wasanaethau cyhoeddus eraill. Fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diwethaf, tai (13%) a chynllunio (10%) yw'r meysydd gwasanaeth y cyflwynwyd y nifer fwyaf o gwynion amdanynt, ac eithrio cwynion iechyd.

Y llynedd, gwneuthum sylwadau am y cynnydd a welwyd mewn cysylltiad â chwynion am wasanaethau cymdeithasol. Eleni, ni chafwyd dim cynnydd sylweddol yn y math hwn o gŵyn o gymharu â 2014/15.

Cwynion fesul pwnc yn 2015/16




[Nodyn: Caiff cwynion eu dosbarthu yn ôl prif faes pwnc y gŵyn. Fodd bynnag, gall cwynion gynnwys meysydd anfodlonrwydd eraill – er enghraifft, gall cwyn 'Iechyd' gynnwys gŵyn hefyd ynghylch 'Trafod Cwynion'.]

**Canlyniadau'r cwynion a ystyriwyd**

Bu inni gau 2,050 o gwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â 2,015 yn 2014/15 (sef cynnydd o 2%). Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yn y tabl isod ac mae dadansoddiadau manwl o'r canlyniadau fesul darparwr gwasanaethau cyhoeddus ar gael yn Atodiad B.

Rwyf yn falch bod staff wedi llwyddo i gau'r nifer hon o gwynion yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r ffaith mai 412 oedd nifer yr achosion a oedd wrth law ar ddiwedd 2015/16, o gymharu â 446 ar ddiwedd 2014/15 (sef gostyngiad o 8%). Credaf fod y nifer hon yn sicr yn cyfateb i lwyth achosion y mae'n rhesymol i'r swyddfa fod wrthi'n ymdrin ag ef ar unrhyw adeg benodol, ac nid ôl-groniad o waith yw. Ar ben hynny, cafwyd cynnydd o 20% yn nifer yr achosion pan fu inni gyflawni datrysiad anffurfiol neu drosglwyddo cwyn i fod yn destun ymchwiliad. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau lles y cyhoedd a gyflwynwyd.

| **Cwyn am Gorff Cyhoeddus** | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|
| Caewyd yr achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 1,488 | 1,564 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 41 | 23 |
| Datryswyd y gŵyn yn wirfoddol (gan gynnwys "ateb sydyn" mewn 182 o achosion) | 227 | 164 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 19 | 8 |
| Ymchwiliad: ni chafodd y gŵyn ei chadarnhaui | 105 | 71 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llwyr neu'n rhannol | 163 | 173 |
| Ymchwiliad: cafodd y gŵyn ei chadarnhau'n llwyr neu'n rhannol – adroddiad lles y cyhoedd | 7 | 12 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – Cwynion** | **2,050** | **2,015** |

**Cyfnodau penderfynu**

Yr amser a gymerwyd i ddweud wrth yr achwynydd a fyddwn yn ymgymryd â'i gŵyn

Gwnaethom bennu targed i ni ein hunain o ddweud wrth achwynwyr p'un a fyddwn yn ymgymryd â'u cwynion neu beidio cyn pen pedair wythnos (o'r dyddiad y daeth gwybodaeth ddigonol i law) yn 90% o'r achosion. Methu'r targed hwn o ychydig iawn y gwnaethom, gan wneud hynny yn 89% o'r achosion (o gymharu â 92% yn ystod 2014/15). Er bod hyn yn siomedig, nid yw'n peri syndod imi o ystyried y cynnydd parhaus yng nghyfanswm y gwaith achosion y mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion yn ymdrin ag ef. Buom yn adolygu'r targed hwn ac yn asesu a yw targed cyffredinol o bedair wythnos ar gyfer pob un o'r mathau amrywiol o waith ystyried cwynion yn y cam hwn yn realistig ac yn gyraeddadwy erbyn hyn o ystyried lefel y gwaith achosion. Er enghraifft, yn y cam hwn, bydd y Tîm Cynghori ar Gwynion yn ymdrechu i ddatrys cwyn yn gynnar, pan fo'n briodol.




Yn debyg i'r sefyllfa yn 2014/15, unwaith eto bu inni gwblhau 99% o'r ymchwiliadau cyn pen 12 mis, yn ôl y targed o 100% y gwnaethom ei bennu i ni ein hunain. Roedd pum ymchwiliad a barodd yn hwy na 12 mis. Achosion cymhleth oedd y rhain gan mwyaf, a oedd â heriau difrifol a oedd yn gofyn am waith ymchwilio pellach.

Mae'r siart isod yn cyflwyno rhagor o fanylion am gyfnodau ymchwilio.



## Cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad

**Y cwynion a gyflwynwyd**

Cynyddodd nifer y cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad 19% o gymharu â'r sefyllfa yn 2014/15 (cafwyd 274 yn 2015/16 o gymharu â 231). Mae'n siomedig gweld y cynnydd hwn, yn arbennig mewn cysylltiad â chynghorau cymuned, y bu cynnydd o 49% yn nifer y cwynion amdanynt.

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Cynghorau Cymuned | 158 | 106 |
| Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol | 115 | 125 |
| Awdurdod Tân | 0 | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol | 1 | 0 |
| Panelau Heddlu a Throseddu | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **274** | **231** |

**Natur y cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad**

Materion 'cydraddoldeb a pharch' oedd sail y ganran fwyaf o bell ffordd o gwynion a gafwyd yn 2015/16, sef 41% o'r cwynion a gyflwynwyd imi (35% oedd y ganran yn 2014/15). Y maes lle y cafwyd y ganran fwyaf ond un o gwynion, sef 16%, oedd 'uniondeb'. 'Datgelu a chofrestru buddiannau' ac 'atebolrwydd a bod yn agored' a oedd yn y safle nesaf, yr oeddent ill dau yn cyfateb i 14% o'r llwyth achosion a oedd yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.



**Crynodeb o ganlyniadau'r cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad**

Gan gyd-fynd â'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd mwyafrif llethol y cwynion hyn (213 ohonynt) eu cau o dan gategori 'Caewyd yr achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol' (cafodd 178 eu cau yn y modd hwn yn 2014/5). Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau fel:

- nid oedd dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf fod y Cod wedi'i dorri
- nid oedd yr achos honedig o dorri'r Cod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad (ac nid oedd yn debygol o arwain at sancsiwn)
- roedd y digwyddiad a oedd wrth wraidd y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod), a
- chafodd rhai eu hatgyfeirio'n ôl i'w datrys yn lleol.

Er gwaethaf y nifer uwch o gwynion a ddaeth i law, trosglwyddwyd llai ohonynt i fod yn destun ymchwiliad llawn (27 yn 2015/16 o gymharu â 34 yn y flwyddyn flaenorol). Rwyf yn priodoli hyn yn bennaf i newid allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, pan gyflwynais 'prawf lles y cyhoedd'. Datblygwyd y prawf hwn o ganlyniad i'r nifer uchel o gwynion distadl a ddaeth i law yn fy swyddfa, ac er mwyn egluro'r meini prawf y byddaf yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylid ymchwilio i gŵyn neu beidio. Mae hefyd yn sicrhau fy mod yn parhau i ymchwilio i gwynion difrifol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus.

O blith y 27 o achosion hynny yr ymchwiliwyd iddynt yn llawn, cafodd chwech eu hatgyfeirio naill ai at bwyllgor safonau neu'r Panel Dyfarnu (atgyfeiriwyd naw yn 2014/15). Mewn amgylchiadau o'r fath, y cyrff hyn sydd i ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynwyd gan yr aelod o dan sylw. Mater iddynt hwy wedyn yw penderfynu a fu achos o dorri'r cod ac, os felly, pa gosb y dylid ei rhoi, os dylid rhoi cosb o gwbl. Ar hyn o bryd, mae tri achos sy'n aros i'w hystyried, a phenderfynwyd ar y tri achos arall fel a ganlyn:

| Gwrandawiad gan: | Penderfyniad a Sancsiwn | Natur yr achos o dorri'r Cod |
|---|---|---|
| Pwyllgor Safonau | Torri'r Cod – cafodd y Cynghorydd ei atal am fis | Dyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith |
| Pwyllgor Safonau | Torri'r Cod – cafodd y Cynghorydd ei atal am fis | Datgelu a chofrestru buddiannau |
| Tribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru | Torri'r Cod – cafodd y Cynghorydd ei atal am dri mis ac mae i'w hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn. | Datgelu a chofrestru buddiannau |

Mae dadansoddiad o'r canlyniadau wedi'i gyflwyno isod:

| | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Caewyd yr achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 213 | 178 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 15 | 7 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 10 | 20 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | 11 | 17 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim angen gweithredu | 10 | 8 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Atgyfeirio at Bwyllgor Safonau | 3 | 8 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu | 3 | 1 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad** | **265** | **239** |

Ceir dadansoddiad manwl o ganlyniad cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod 2015/16, fesul awdurdod, yn Atodiad C.

**Cyfnodau penderfynu**

Yr amser a gymerwyd i ddweud wrth yr achwynydd p'un a fyddwn yn ymgymryd â'i gŵyn

O ran cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad, cafodd 91% o'r achwynwyr eu hysbysu cyn pen pedair wythnos a fyddwn yn ymgymryd â'u cwynion (o'r dyddiad y daeth gwybodaeth ddigonol i law). Rwyf yn arbennig o falch ein bod wedi rhagori ar ein targed o 90% yn hyn o beth. Y llynedd, rhoddais wybod ein bod wedi cyflawni'r targed pedair wythnos yn 79% o'r achosion ac y byddwn yn gweithio gyda fy staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau ein bod yn rhoi gwybod yn brydlon i'r achwynydd a'r aelod a gyhuddwyd a fyddwn yn ymchwilio i'r mater neu beidio. Ar ben y gwelliant hwn yn ôl y targed pedair wythnos, mae hefyd yn werth nodi y rhoddwyd gwybod i 96% cyn pen pum wythnos. Rwyf i a'm staff bob amser yn ymwybodol o'r ffaith y gall bod yn destun cwyn fod yn fater difrifol sy'n peri straen i'r aelod y cyflwynir cwyn amdano.

Dangosir manylion pellach am gyfnodau'r penderfyniadau isod.




## Cyfnodau'r penderfyniadau ar ddod ag ymchwiliadau ynghylch y cod ymddygiad i ben

Gan gymharu'r perfformiad â'r sefyllfa yn 2014/15, yn ogystal â'r gwelliant o ran cyflawni'r targed pedair wythnos, fel y nodir uchod, rwyf hefyd yn falch y bu gwelliant o ran cau ymchwiliadau cyn pen deuddeng mis. Ar ben hynny, fel y dengys y siart isod, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd 85% o'r ymchwiliadau ynghylch y Cod Ymddygiad eu cwblhau cyn pen 9 mis, o gymharu â 76% yn 2014/15.



# 5. Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'n bwysig i mi nid yn unig ein bod yn gwneud iawn i ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus pan ganfyddir achos o ddarparu gwasanaeth yn wael, ond bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno, o ganlyniad i'n gwaith, ym meysydd hynny'r ddarpariaeth o wasanaethau y bu inni ganfod methiannau ynddynt. Disgrifiaf isod rai o'r mentrau a gyflwynwyd eleni i ddatblygu'r arferion a sefydlwyd eisoes yn y cyswllt hwn.

## Swyddogion Gwella

Yn arbennig, yn ystod y flwyddyn cyflwynais rôl ychwanegol 'swyddog gwella' i fod yn rhan o swyddi nifer o'r staff ymchwilio yn fy swyddfa. Er bod prif elfen eu swydd yn dal yn ymwneud ag ymchwilio i gwynion, bydd eu rôl wella yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid o gyrff penodol sy'n rhan o'm hawdurdodaeth yn ogystal ag arweinwyr pynciau mewn meysydd sy'n parhau i effeithio ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus.

Y sefydliadau hynny y neilltuwyd Swyddog Gwella iddynt oedd: Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Abertawe Bro Morganwg, BIP Aneurin Bevan, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Caerdydd a'r Fro, BIP Hywel Dda a Chyngor Sir Ceredigion. Wrth ymgysylltu â'r cyrff hyn, rydym yn gobeithio gweld gwelliannau parhaus o ran ymdrin â chwynion, dysgu a chywiro pethau, ynghyd â'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen er mwyn gwella'n barhaus. Byddwn yn adolygu ein data'n rheolaidd, ynghyd â'r gwersi a ddysgwn o'r trefniadau hyn, er mwyn canfod unrhyw welliannau. Byddaf yn ystyried maes o law a fyddai'n fuddiol ymestyn y dull gweithredu hwn i gyrff eraill.

Bellach mae arweinwyr pynciau ar waith ar gyfer y meysydd a ganlyn:

- iechyd (ac mae arweinydd ar wahân ar gyfer cyngor clinigol)
- tai
- gwasanaethau cynllunio llywodraeth leol
- gwasanaethau cymdeithasol, a
- chod ymddygiad aelodau awdurdodau lleol.

Rhoddir yr orchwyl benodol i arweinwyr pynciau o ganfod tueddiadau o waith achosion ar draws y swyddfa, arwain yng nghyswllt adroddiadau thematig, a monitro datblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar y maes pwnc.

## Adroddiadau Thematig




Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig cyntaf a ddeilliodd o'r dull gweithredu newydd a ddisgrifir uchod ym mis Mawrth 2016. Tynnodd yr adroddiad 'Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu' sylw at nifer o achosion yr ymchwiliwyd iddynt a ddangosodd safonau annigonol yn y gofal a ddarparwyd i gleifion mewn ysbytai ledled Cymru y tu allan i oriau gwaith 'arferol'.

Oherwydd nad wyf ond yn gallu ystyried cwynion y mae defnyddwyr gwasanaethau yn eu cyflwyno imi ar hyn o bryd, galwodd fy adroddiad am adolygiad systemig annibynnol o ofal y tu allan i oriau. Yn arbennig, nodais fod angen rhoi sylw i'r meysydd a ganlyn:

- darpariaeth annigonol o ymgynghorwyr ar draws saith diwrnod
- oedi o ran cynnal adolygiadau meddygol a diffyg adolygiadau ymgynghorwyr
- diffyg uwch-oruchwyliaeth ar gyfer staff meddygol iau
- methu â chwrdd â safonau gofal a dilyn canllawiau sefydledig.

Er na wneuthum awgrymu bod y methiannau o ran gofal y bu i'm swyddfa eu canfod yn nodweddiadol o'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd yn ysbytai Cymru, nid oedd yn ymddangos eu bod yn achosion unigryw. Byddai adolygiad systemig annibynnol yn cadarnhau p'un a oes unrhyw batrymau neu anghysondebau sy'n dod i'r amlwg o ran ansawdd y gofal yn y maes hwn ac, os felly, yn peri bod modd mynd i'r afael â hwy â'r dulliau priodol.

Yn ychwanegol at yr hyn a nodir uchod, bu gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r nod o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Yn arbennig, roeddwn yn falch o allu cyhoeddi dogfen ar y cyd â'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- **Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda –** Roedd y ddogfen hon yn diwygio 'Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda' a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon yn 2008. Roeddwn yn falch iawn o allu gweithio gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth i adolygu'r ddogfen hon, sydd bellach yn cynnwys dwy Egwyddor newydd sy'n ymwneud â rheoli cofnodion yn dda. Yn dilyn ymgynghoriad â chyrff sy'n rhan o'm hawdurdodaeth, cyhoeddwyd y ddogfen newydd ym mis Chwefror 2016.

- **Dulliau Gwell o Gasglu Data –** Yn ystod y flwyddyn, buom hefyd yn adolygu lefel y data yr ydym yn eu casglu ynghylch y cwynion a gyflwynir imi, gan ganolbwyntio'n arbennig yn gyntaf ar gwynion sy'n ymwneud ag iechyd. Y nod yw ein galluogi i ganfod tueddiadau ar lefel fwy micro yn hytrach na lefel facro. Gan mai dim ond yn ystod y flwyddyn hon y bu inni ddechrau mewnbynnu'r data ar y lefel hon, mae'n rhy gynnar yn y broses inni fod wedi gallu elwa ar y gwaith hwnnw hyd yma. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu casglu gwybodaeth ddefnyddiol i weithredu arni yn ystod 2016/17.

At hynny, ni ddylid anghofio'r dulliau a sefydlwyd eisoes i dynnu sylw at feysydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau sydd i'w gwella gan y cyrff sy'n rhan o'm hawdurdodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Adroddiadau budd cyhoeddus** – Cyhoeddwyd saith adroddiad o'r fath yn ystod 2015/16, a chyflwynir crynodebau o'r adroddiadau ymchwilio hyn ynghyd â chanfyddiadau a chanlyniadau yn Atodiad A. Mae'r adroddiadau llawn ar gael ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

- **Coflyfr yr Ombwdsmon** – Parhaodd y rhain i gael eu cyhoeddi bob chwarter. Y pedwar prif faes y nodwyd bod angen gwella gwasanaethau ynddynt yn y cyhoeddiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn oedd:
  - gwasanaethau i ddinasyddion sy'n agored i niwed
  - lleihau trallod marw – pam y mae angen gwella gofal diwedd oes
  - gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol
  - addysg anghenion arbennig.

- **Y Coflyfr Cod Ymddygiad** – Ar gais ei ddarllenwyr, bu inni ddechrau cyflwyno'r rhain bob chwarter yn ystod 2015/16 yn hytrach na bob chwe mis, sef ein harfer cyn hynny. Bydd sylwadau blynyddol gennyf i yn ymddangos yn argraffiadau mis Ebrill y Coflyfr.

- **Llythyrau Blynyddol** – Rhoddir y rhain i gynghorau sir a byrddau iechyd ac maent yn cael eu defnyddio'n sail i drafodaethau â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr byrddau iechyd lleol unigol. Caiff awdurdodau lleol eu gwahodd hefyd i drefnu cyfarfod i drafod eu Llythyr Blynyddol penodol os dymunant. Bwriedir i'r Llythyrau Blynyddol sydd i'w rhoi yn ystod 2016 yng nghyswllt blwyddyn weithredol 2015/16 gynnwys am y tro cyntaf sylwadau gan swyddog gwella mewn cysylltiad â'r cyrff hynny y neilltuwyd swyddog gwella iddynt.

# 6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

## Yr Ombwdsmon

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn pennu bod swydd yr Ombwdsmon yn 'gorfforaeth undyn'. Mae'r Ombwdsmon yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a hynny drwy gyfrwng yr adroddiad blynyddol, ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried yn yr Ombwdsmon i'w ddefnyddio i ymgymryd â'i swyddogaethau.

Bu imi ymddangos gerbron Pwyllgor o'r Cynulliad ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd â'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i drafod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 a'r Pwyllgor Cyllid i drafod yr amcangyfrif o'm cyllideb a gyflwynais ar gyfer 2016/17. Bu imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid hefyd i ddarparu tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i bwerau OGCC. Roeddwn yn croesawu'r cyfle ar bob achlysur i drafod nid yn unig y gwaith a wnaed eisoes gan fy swyddfa, ond yr hyn a allai nodweddu gwaith y swyddfa yn y dyfodol.

## Y Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Fel y nodwyd y llynedd, er mai corfforaeth undyn yw'r swydd, mae gennyf Banel Cynghori sy'n fy herio ac sy'n fy nghynorthwyo i yn Ombwdsmon. Ceir hefyd Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sef is-bwyllgor o'r Panel. Wedi imi adolygu lefel yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penderfynais gryfhau ei aelodaeth drwy ychwanegu un aelod ato. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio agored/cyhoeddus. Roeddwn yn falch iawn o benodi Mr Jonathan Morgan o blith detholiad o ymgeiswyr medrus. Bu Mr Morgan yn gwasanaethu'n Aelod Cynulliad am 12 mlynedd, ac mae'n gyn-Gadeirydd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Ymunodd â'r Panel ym mis Mawrth 2016 a bydd hefyd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg OGCC.

Bydd gwaith y Panel a'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf yn cael ei gyflwyno'n fwy manwl fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynyddol ar gyfer 2015/16.

## Y Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli wedi parhau i'm cynorthwyo a'm cynghori mewn cysylltiad â'r cyfeiriad strategol yn ogystal â'r gwaith o weithredu'r swyddfa o ddydd i ddydd. Rwyf yn ddiolchgar yn arbennig iddo eleni am sicrhau y cafwyd cyfnod pontio llwyddiannus a di-dor o ran y staff a gweithredu'r swyddfa. Mae strwythur diwygiedig y staff i'w weld ar dudalen 30.

## Y Cynllun Strategol Tair Blynedd

Hon oedd blwyddyn derfynol y strategaeth bresennol ac, o ganlyniad, yn ystod y flwyddyn bûm i a'm staff yn datblygu cynllun strategol tair blynedd newydd ar gyfer y swyddfa hyd at blwyddyn weithredol 2018/19. Bu inni gynnal nifer o weithdai, a oedd yn gynhyrchiol iawn. Cynhaliwyd hefyd weithdy ar wahân ar gyfer Aelodau'r Panel Cynghori ac roeddwn yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniad. Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Nodau Strategol newydd oedd ffrwyth y gwaith hwn.

Er bod bwrw ymlaen â'r gwasanaeth o dan bwerau presennol yr Ombwdsmon yn ffocws allweddol i'n trafodaethau, roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig inni greu cyfle yn ein cynlluniau strategol i weithredu unrhyw Ddeddf OGCC newydd y gellid ei chreu yn ystod oes y cynllun. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio'r neges yn yr adroddiad hwn nad wyf, wrth wneud hynny, wedi cymryd dim yn ganiataol mewn cysylltiad â chyflwyno deddfwriaeth newydd neu'r hyn y gallai'r ddeddfwriaeth honno ei chynnwys.

Isod ceir crynodeb darluniadol o'r cynllun strategol. Mae testun llawn y Nodau Strategol ar gael yn y ddogfen gynhwysfawr 'Cynllun Strategol Tair Blynedd 2016/17 tan 2018/19: Arloesi, Dylanwadu, a Gwelliant' ar y wefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk.




## Cyfarwyddeb Ewropeaidd ar Ddull Amgen o Ddatrys Anghydfod

Y llynedd, rhoddais wybod am yr effaith bosibl ar OGCC yn sgil cyhoeddiad y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Ddull Amgen o Ddatrys Anghydfod Rheoliadau a'r Rheoliadau Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau Defnyddwyr (Awdurdodau Cymwys a Gwybodaeth) 2015, a osodwyd gan Lywodraeth y DU gerbron Senedd y DU ar 17 Mawrth 2015. Pan oeddwn yn ysgrifennu fy adroddiad y llynedd, roeddwn yn dal i ystyried a oedd yn briodol i OGCC wneud cais i fod yn endid Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod. Er cyflawnrwydd, nodaf yma fy mod wedi dod i'r casgliad nad oedd yn briodol i OGCC wneud hynny. At hynny, ers imi wneud fy mhenderfyniad, mae ombwdsmyn eraill y sector cyhoeddus yn y DU (ac Ombwdsmon Iwerddon) wedi dod i gasgliad tebyg.

## Siart Sefydliadol

(Sefyllfa ar 31 Mawrth 2016)



# 7. Gweithgareddau Eraill

## Cydweithredu â Chomisiynwyr

Bûm wrthi'n chwilio am gyfleoedd i gydweithredu ag ombwdsmyn eraill a chomisiynwyr mewn amgylchiadau pan fo hynny'n briodol. Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod am gyhoeddiad a gyflwynais ar y cyd â'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac rwyf yn falch y gallaf roi gwybod am ddau ddatblygiad penodol arall sydd wedi mynd rhagddynt dros y misoedd diwethaf:

- **Contract Archwilio Mewnol** – Gan fod diwedd contract archwilio mewnol OGCC ar y gorwel, roeddwn yn falch bod y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi cytuno, gan anelu at arbed costau, y byddai'n fuddiol caffael drwy ymgymryd â phroses dendro ar gyfer archwilio mewnol yn gynhwysfawr, y gallai swyddfa pob Comisiynydd wedyn ei defnyddio'n unigol. Arweiniodd proses dendro lwyddiannus at foddhad y Comisiynwyr a minnau yn hyn o beth.

- **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** – Cefais hefyd drafodaethau cadarnhaol iawn â Chomisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac roeddwn yn falch o allu cytuno i ddarparu gwasanaeth cyflogau staff i'r Comisiynydd ar gyfer ei swyddfa.

Yn ychwanegol at yr hyn a nodir uchod, rwyf wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â'r Comisiynwyr yng Nghymru i drafod materion o ddiddordeb cyffredin.

## Gwaith ymchwil ynghylch boddhad achwynwyr

Rydym wedi parhau â'n harfer o gynnal arolwg o foddhad cwsmeriaid ein gwasanaeth cyswllt cyntaf. Mae'r tabl isod yn cyflwyno canlyniadau 2015/16 (roedd rhai ymatebwyr nad oeddent wedi ateb pob cwestiwn; mae'r cwestiynau nas atebwyd wedi'u hepgor yng nghyswllt y canlyniadau isod):

| | **% yr ymatebwyr a oedd naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno'** |
|---|---|
| Roedd yn hawdd canfod sut i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 95% |
| Mae'r gwasanaeth yr wyf wedi ei dderbyn wedi bod yn werthfawr a sensitif | 88% |
| Roedd y staff yn gallu deall fy nghwyn / Roedd y person a ddeliodd â fy ymholiad yn gwybod digon er mwyn gallu ateb fy nghwestiwn | 88% |
| Cefais eglurhad clir ynghylch beth fyddai'n digwydd i fy ymholiad/cwyn | 89% |
| Mae'r gwasanaeth wedi darparu'r hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl | 83% |

Yn amlwg, mae'r canlyniadau uchod yn galonogol iawn; yn arbennig yn erbyn cefndir y cynnydd yn y gwaith y bu'r gwasanaeth rheng flaen yn ymdrin ag ef, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Buom hefyd yn ystyried ffyrdd eraill o ddeall safbwyntiau rhanddeiliaid amrywiol ynghylch fy ngwasanaeth. Gan edrych ar arferion da mewn mannau eraill yng nghymuned yr ombwdsmyn, rwyf wedi penderfynu y dylem sefydlu nifer o fyrddau trafod safbwyntiau yn y cyswllt hwn. Bydd y cyntaf o'r rhain yn cynnwys aelodau o gyrff cynghori ac eiriolaeth, gan wahodd yn arbennig y sefydliadau hynny sy'n helpu achwynwyr drwy'r broses gwynion. Rwyf hefyd yn bwriadu llunio byrddau trafod safbwyntiau i gasglu adborth gan sefydliadau eraill, gan gynnwys aelodau cyrff sy'n rhan o'm hawdurdodaeth, er mwyn deall eu safbwynt ynghylch y gwasanaeth y mae fy swyddfa yn ei ddarparu. Rwyf yn gobeithio y bydd y cyntaf o'r rhain ar waith ar ddiwedd chwarter cyntaf 2016/17.

## Cyfathrebu

**Allanol:**

- Y cyfryngau – Parhaodd perthynas gadarnhaol â'r cyfryngau dros y flwyddyn ddiwethaf, a chynhaliwyd cyfarfodydd â nifer o newyddiadurwyr, yn arbennig newyddiadurwyr darlledu, i drafod ac egluro materion sy'n peri pryder ac sydd o diddordeb i'r swyddfa ar hyn o bryd. Unwaith eto, bu nifer o gyfleoedd imi gael fy nghyfweld ar y teledu a'r radio. Rhoddwyd lefel ragorol o sylw i adroddiad thematig 'Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu' yn ogystal ag i'r adroddiadau lles y cyhoedd a gyhoeddais yn ystod y flwyddyn.

- Y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol – Yn ystod y flwyddyn, buom yn adolygu gwefan OGCC a'n gweithgareddau o ran y cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad, gwnaethom ddatblygu ymhellach ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ychwanegu at y cyfrif Twitter presennol drwy gyflwyno tudalen Facebook a chreu sianel YouTube. Rydym yn bwriadu rhoi cychwyn ar y gwaith o ailwampio'r wefan yn ystod 2016/17.

**Mewnol:** Rydym hefyd wedi gwella ein gweithgareddau cyfathrebu mewnol yn y swyddfa. Yn arbennig, erbyn hyn mae bwletin wythnosol yn cael ei lunio ar gyfer staff, sy'n amlygu'r sylw a roddwyd yn y wasg i swyddfa'r ombwdsmon, yn ogystal ag erthyglau yn y wasg sy'n berthnasol i waith y swyddfa. Defnyddir y bwletin hefyd i ddosbarthu o amgylch y swyddfa y wybodaeth o'r cyfarfodydd amrywiol y bu staff ynddynt. Yn ychwanegol at y bwletin, cyflwynwyd fersiwn newydd o'r Chwyddwydr, sef cylchlythyr y staff, ac erbyn hyn mae'n ymddangos ar-lein mewn fformat digidol.

## Cymuned yr Ombwdsmyn

Dros y blynyddoedd, er mai cynllun gymharol fach yw cynllun OGCC o'i gymharu â chynlluniau gwledydd eraill, mae wedi cyflawni mwy na'r disgwyl o ran ei sefyllfa yng nghymuned yr ombwdsmyn. Mae deiliaid swydd OGCC wedi dal swyddi uwch yn yr OA (Cymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon) a'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol.

Roeddwn yn falch iawn o allu parhau i gynnal y fflam pan, ym mis Mai 2015, cefais fy ethol yn Is-gadeirydd yr OA. Mae swydd Ombwdsmon yn swydd unigryw i raddau helaeth, ac mae'n bwysig bod yn aelod o sefydliadau o'r fath, a chyfranogi ynddynt. Mae hyn yn ein galluogi i rannu'r arferion gorau, dysgu gan ein gilydd ac yn wir ddatblygu sefydliad yr ombwdsmon yn sgil datblygiadau allanol. Mae aelodau eraill o'm staff hefyd wedi parhau i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r OA, gan gynnwys nifer o Grwpiau Buddiannau'r OA.

## Cwynion am wasanaeth OGCC

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi adolygu a diwygio ein polisi a'n gweithdrefn ein hunain ynghylch cwynion. Mae'r weithdrefn honno ar gael i bobl sydd am gwyno am y gwasanaeth yr wyf i yn ei ddarparu. Newid allweddol yw fy mod wedi penderfynu penodi adolygydd allanol annibynnol o'r cwynion am fy ngwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth adolygu hwn ar gael i'r rhai sydd wedi cwyno i mi am fy ngwasanaeth, ond sy'n dal yn anfodlon ar ôl cael fy ymateb. Nid mater i'r adolygydd yw 'ailymchwilio' i gŵyn neu adolygu penderfyniad a wnaed gennyf (ynghylch cwyn am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus); yn hytrach, ei waith yw ystyried y gwasanaeth y mae fy staff wedi ei ddarparu o gofio'r enghreifftiau a nodir isod. Yn dilyn unrhyw adolygiad, byddaf yn ystyried unrhyw argymhellion neu awgrymiadau y gall yr adolygydd eu gwneud.

Rwyf wedi cymryd y cam hwn gyda'r bwriad o ymestyn datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf o ran sicrhau bod OGCC yn agored i waith craffu ac adolygu; yn yr achos hwn, o ran y dull o ymdrin â chwynion am wasanaeth OGCC.

Er enghraifft, gellir defnyddio'r polisi pan fo achwynwyr yn teimlo ein bod:

- wedi eu trin yn annheg neu'n anghwrtais; neu
- wedi methu ag esbonio pethau'n glir; neu
- wedi achosi oedi afresymol; neu
- wedi methu â gwneud yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud; neu
- wedi methu â dilyn ein prosesau'n gywir.

Mae'r polisi ynghylch cwynion am fy ngwasanaeth hefyd yn cynnwys y broses i'w dilyn pan fo rhywun yn dymuno gwneud cais am i OGCC gynnal adolygiad mewnol o'r penderfyniad am ei gŵyn ynglŷn â darparwr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae rhagor o fanylion am y polisi hwn ar gael ar fy ngwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno nifer y cwynion a gafwyd yn ystod 2015/16 a'u canlyniadau, ynghyd â chymhariaeth o'r sefyllfa yn 2014/15.

| | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|
| Cwynion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 1 | 3 |
| Cwynion newydd a gafwyd | 61 | 82 |
| **CYFANSWM Y CWYNION** | **62** | **85** |

| **CANLYNIADAU** | | |
|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau (mater yn ymwneud â'r gwasanaeth) | 20 | 14 |
| Cadarnhawyd yn llwyr neu'n rhannol | 15 | 12 |
| Yn gysylltiedig â phenderfyniad ymchwiliad – wedi'u hatgyfeirio at y broses ymchwilio | 18 | 44 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl neu wybodaeth annigonol | 9 | 14 |
| **Y cyfanswm a gaewyd yn ystod y flwyddyn** | **62** | **84** |
| Yn parhau ac a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth | 0 | 1 |

Natur y cwynion a gefnogwyd/a gefnogwyd yn rhannol oedd:

| | |
|---|---|
| Oedi diangen cyn ymateb / neu oedi cyn atgyfeirio gohebiaeth | 4 |
| Gwall recordio Sain Digidol cyfweliad | 1 |
| Gwybodaeth anghywir wedi'i darparu | 1 |
| Teitl yr achwynydd / y cyfarchiad yn anghywir ar ohebiaeth | 1 |
| Ni chafodd y cofnodion mewnol eu diweddaru'n brydlon | 1 |
| Gwall o ran proses negesydd sy'n dod i'r swyddfa | 1 |
| Gohebiaeth wedi'i rhoi yn y ffeil anghywir | 1 |
| Gohebiaeth wedi'i hanfon mewn camgymeriad | 5 |
| **Cyfanswm** | **15** |

Gweithredwyd y camau unioni a ganlyn:

- rhoddwyd ymddiheuriad i'r achwynydd ym mhob un o'r 15 achos
- rhoddwyd gwybod i'r Rheolwyr llinell perthnasol am y cwynion a gefnogwyd a oedd yn berthnasol i'w timau, at ddibenion hyfforddi a monitro yn y dyfodol
- cynhaliwyd hyfforddiant staff priodol a pherthnasol pan oedd yn angenrheidiol
- cymerwyd camau priodol yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol OGCC
- cafodd polisïau / prosesau perthnasol eu hadolygu i leihau'r perygl y bydd testun y gŵyn yn ailddigwydd.

**Adroddiad ar Adolygiadau Annibynnol o Gwynion am Wasanaeth OGCC**

Tra roedd y trefniadau ynghylch cynnal adolygiad allanol annibynnol o'r cwynion am fy ngwasanaethau ar waith ers llai na blwyddyn lawn, lluniwyd adroddiad ar gyfer y pedwar mis hyd at 31 Mawrth 2016. Cafodd saith cwyn eu hatgyfeirio i'r adolygydd allanol, ond ni dderbyniwyd dim o'r rhain i'w hadolygu. Cyflwynwyd un yn rhy gynnar, mewn dau achos ceisiwyd cyngor pellach oddi wrth yr adolygydd allanol ac yn y pedwar achos arall roedd y gŵyn yn ymwneud â'm penderfyniad ar gŵyn yr achwynydd am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na'r gwasanaeth a ddarperir gan fy staff. Gwnaeth yr adolygydd allanol annibynnol ddau argymhelliad: fy mod yn darparu mwy o eglurder ynghylch rôl a chyfyngiadau prosesau adolygu a chwynion mewnol, a'r llwybrau posibl, ar ddechrau'r broses, ac fy mod yn ychwanegu manylion pellach am gyfyngiadau'r gwasanaeth adolygu allanol annibynnol at fy ymatebion i gwynion am y gwasanaethau yr wyf i a'm staff yn eu darparu. Bydd y ddau argymhelliad yn cael eu gweithredu.

# 8. Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon lunio adroddiad blynyddol ar faterion cydraddoldeb. Gwnaf hynny yma fel rhan o'm Hadroddiad Blynyddol cyffredinol ar gyfer 2015/16.

Mae ymrwymiad i drin pobl yn deg yn rhan ganolog o swydd ombwdsmon. A minnau'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal i staff yn y gwasanaeth a ddarperir i achwynwyr. Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd, aelod o'r staff, neu berson sy'n cael gwasanaeth gan yr Ombwdsmon yn dioddef gwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth o ganlyniad i nodweddion personol fel oedran, anabledd, ethnigrwydd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, p'un a yw rhywun yn briod neu mewn partneriaeth sifil, neu ar sail unrhyw ystyriaeth amherthnasol arall. Disgwylir i'm staff rannu fy ngwrthwynebiad llwyr i wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg, a'r ymrwymiad i gynnal busnes mewn modd sy'n deg â phob aelod o'r gymdeithas.

## Hygyrchedd

Fel rhan o'n proses, rydym yn gwneud ein gorau glas i ganfod, cyn gynted â phosibl, unrhyw ofynion unigol y gall fod angen eu cyflawni fel y gall defnyddiwr gwasanaeth gael mynediad llawn at ein gwasanaethau ac, yn benodol, rydym yn gofyn i bobl ddweud wrthym pa ddull o gyfathrebu â ni sydd orau ganddynt.

Yn ystod 2015/16, bu inni ganolbwyntio'n arbennig ar wella mynediad at ein gwasanaeth i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Mae fideo newydd ar gael erbyn hyn yn Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r fideo'n egluro gwasanaeth yr Ombwdsmon, ynghyd â sut y gall pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Mae isdeitlau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn peri bod y fideo'n hygyrch hefyd i'r rhai sydd wedi colli clyw ac nad ydynt yn gallu deall Iaith Arwyddion Prydain. Mae hyn yn cyd-daro â darparu'r gwasanaeth dehongli SignVideo newydd, sy'n galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gysylltu â'r Ombwdsmon yn ddi-dâl, gan ddefnyddio dehonglwyr sydd â chymwysterau llawn ac a ddarlledir yn fyw. Gellir gwneud galwadau drwy ddefnyddio ffôn fideo, gliniadur, cyfrifiadur personol, llechen neu ffôn clyfar, gan alluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gael mynediad gwell at wasanaethau'r Ombwdsmon.



Rydym bob amser wedi ceisio gwneud addasiadau rhesymol pan fyddai'r rhain yn helpu pobl i lunio'u cwyn a'i chyflwyno inni. Dyma enghreifftiau o ddulliau sydd wedi hen ymsefydlu: darparu gohebiaeth mewn fersiwn Hawdd ei Darllen; defnyddio Language Line i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, pan nad yw achwynydd yn gyfforddus wrth gyflwyno'i gŵyn yn y Gymraeg neu'r Saesneg; cael gwybodaeth arbenigol i'n cynorthwyo i ddeall gofynion arbennig achwynwyr sydd â chyflyrau penodol, fel syndrom Asperger; ac ymweld ag achwynwyr yn eu cartrefi.

Rydym yn cynhyrchu dogfennau allweddol mewn fformatau gwahanol, fel CD/tâp a Braille, ac yn cyfieithu'r rhain i'r wyth o ieithoedd lleiafrifoedd ethnig allweddol a ddefnyddir yng Nghymru. Mae ein gwefan wedi cael ei datblygu'n barhaus, gan gael ei huwchraddio i gychwyn o fod yn cydymffurfio ar lefel A i lefel AA, a chan gyflwyno nodweddion eraill wedyn fel: gwasanaeth BrowseAloud gwell; ymgorffori gwasanaeth GoogleTranslate gan olygu bod tudalennau cynnwys gwefan OGCC yn cael eu cyfieithu'n awtomatig i unrhyw un o blith y 100 o ieithoedd sydd ar gael; ac, yn fwyaf diweddar, y fideo Iaith Arwyddion Prydain y cyfeirir ato uchod.

Mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion hefyd yn parhau i ddarparu gwybodaeth am sefydliadau eiriolaeth a chyngor i'r bobl hynny y gall fod angen cymorth arnynt i gyflwyno'u cwyn imi. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar ein gwefan hefyd.

## Casglu/Monitro Data am Gydraddoldeb – Defnyddwyr y Gwasanaeth

Bu inni barhau â'n gwaith o fonitro cydraddoldeb yng nghyswllt defnyddwyr y gwasanaeth, sef gwaith sy'n llywio ein strategaeth allgymorth flynyddol. Mae canlyniad y gwaith monitro a wnaed yn ystod 2015/16 o ran y grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gydraddoldeb) wedi'i nodi isod.

O ystyried natur gwaith y swyddfa hon, byddem yn disgwyl i'r bobl sy'n cwyno imi adlewyrchu'r sefyllfa ddemograffig genedlaethol o leiaf; mewn gwirionedd, byddem yn disgwyl y byddai cyfran yr achwynwyr sy'n perthyn i grwpiau y gellid eu hystyried i fod o dan anfantais neu'n agored i niwed yn uwch na'r gyfran yn ôl y darlun cenedlaethol. Yng nghyswllt pob un o'r cwestiynau y gwnaethom ei ofyn, rhoddwyd cyfle i'r rhai a gwblhaodd y ffurflen ddewis peidio â dweud.

Nid yw'r canlyniadau isod yn annhebyg i ganlyniadau blynyddoedd blaenorol ac yn yr un modd rwyf yn gymharol fodlon, wrth gymharu â data swyddogol sydd ar gael (e.e. Cyfrifiad 2011), fod cyfansoddiad defnyddwyr ein gwasanaeth yn cyd-fynd â'r sefyllfa ddemograffig genedlaethol, neu'n rhagori arni, yn y modd y byddem yn ei ddisgwyl. Canfu'r swyddfa hon o'r blaen fod y gymuned lleiafrifoedd ethnig yn faes a oedd yn cael ei gynrychioli i raddau ychydig yn llai na'r lefel ddigonol. Roedd cynnydd wedi'i wneud gan inni gyd-fynd â'r ganran ddemograffig (4% o boblogaeth Cymru, yn ôl y Cyfrifiad). Fodd bynnag, o safbwynt ymwybyddiaeth o'm swyddfa, mae'n dda iawn gweld, o'r rhai a gwblhaodd ffurflen monitro cydraddoldeb yn 2015/16, fod 6% wedi nodi eu bod o gefndir lleiafrif ethnig.

| Grŵp â nodwedd warchodedig | Canlyniad canrannol |
|---|---|
| **Oedran** | |
| O dan 25 | 3% |
| 25-34 | 11% |
| 35-44 | 20% |
| 45-54 | 23% |
| 55-64 | 22% |
| 65-74 | 11% |
| 75 neu'n hŷn | 5% |
| Dewis peidio â dweud /Dim ymateb | 5% |
| **Anabledd** | |
| Oes | 25% |
| Nac oes | 64% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 11% |
| **Problem iechyd neu anabledd yn cyfyngu ar weithgareddau bob dydd?** | |
| Oes, yn cyfyngu llawer | 24% |
| Oes, yn cyfyngu ychydig | 12% |
| Na | 53% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 11% |
| **Ailbennu rhywedd** | |
| Do | 0.5% |
| Naddo | 23% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 76.5% |
| **Crefydd neu gred** | |
| Dim crefydd | 40% |
| Cristnogol (pob enwad) | 47% |
| Crefyddau eraill | 8% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 5% |
| **Yn briod neu mewn partneriaeth sifil ag unigolyn o'r un rhyw** | |
| Ydw | 47% |
| Nac ydw | 41% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 12% |
| **Hil/Ethnigrwydd** | |
| Gwyn | 88% |
| Cefndir ethnig arall | 6% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 6% |
| **Rhyw** | |
| Gwryw | 50% |
| Benyw | 45% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 5% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | |
| Heterorywiol neu 'strêt' | 84% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 1% |
| Deurywiol | 1% |
| Arall | 1% |
| Dewis peidio â dweud/Dim ymateb | 13% |

## Allgymorth

Rydym yn ystyried canlyniadau ein gwaith o fonitro cydraddoldeb wrth ddatblygu ein rhaglenni allgymorth. Gwnaethom ganolbwyntio ar ddau faes yn arbennig yn ystod 2015/16: pobl hŷn a phobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Gan gadw ystyriaethau o ran cydraddoldeb a hygyrchedd mewn cof, buom hefyd yn rhoi sylw i dlodi/allgáu cymdeithasol gan fod ein gwaith ymchwil wedi dangos bod lefel yr ymwybyddiaeth o'r Ombwdsmon yn isel ymysg y rhan hon o boblogaeth Cymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rwyf i a'm staff wedi ymgysylltu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid; a Shelter Cymru, a bûm hefyd yn cadeirio cyfarfod rhwng Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru, Michael Sheen (actor ac ymgyrchydd), ac elusennau tai mewn cysylltiad â digartrefedd ymysg pobl ifanc. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â sefydliadau fel Action on Hearing Loss; Age Cymru; ac eraill.

## Gwasanaeth Cyfeirio Cwynion Cymru

Rwyf hefyd o'r farn fod gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru yn bwysig mewn cysylltiad â chyfraniad y swyddfa at y ddyletswydd gydraddoldeb. Gwasanaeth annibynnol a diduedd yw hwn, a ddarperir gan y Tîm Cynghori ar Gwynion i hysbysu pobl ynghylch ble a sut i gyflwyno cwyn i gorff cyhoeddus sy'n darparu'r gwasanaeth y maent am gwyno amdano neu i'r ombwdsmon neu'r sefydliad annibynnol priodol sy'n ymdrin â chwynion. Credaf fod hwn yn wasanaeth pwysig i'r bobl hynny nad ydynt yn deall y 'system gwasanaethau cyhoeddus', nad ydynt yn gyfarwydd â hi, neu sy'n teimlo eu bod wedi'u cau allan ohoni. Parhaodd y gwaith o hyrwyddo'r gwasanaeth yn ystod 2015/16, ar yr achlysur hwn drwy gyfrwng hysbysebion mewn papurau lleol/rhanbarthol (y rhai a argraffir a'u fersiynau ar-lein cysylltiedig).

## Ein Gwaith Achos

Mae ein hymrwymiad a'n cyfraniad i faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hefyd yn amlygu eu hunain yn ein gwaith o ymdrin â chwynion. Rydym hefyd yn rhoi sylw i faterion hawliau dynol. Er nad mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn torri deddfwriaeth o'r fath, mae'n bosibl bod methu ag ystyried unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o'r fath, neu fethu â dilyn polisïau a gweithdrefnau a ddyluniwyd i weithredu'r rhwymedigaethau hyn, yn achos o gamweinyddu. Er enghraifft, yn dilyn yr ymchwiliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gŵyn ynghylch person digartref a oedd yn anabl ac a oedd yn dioddef anhwylder straen wedi trawma, bu imi ganfod, ymysg methiannau eraill, fod yr amser a gymerodd yr Awdurdod i ystyried cais Mr A am dŷ yn anghydnaws â nodau'r Ddeddf Gydraddoldeb. Gwneuthum nifer o argymhellion. Roedd y rhain yn cynnwys darparu hyfforddiant priodol i staff a sicrhau bod prosesau asesu therapi galwedigaethol a'r ffurflen anghenion arbennig o ran tai yn cael eu cynnwys yn y teclyn ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd i'w ddefnyddio yng Nghynllun Dyrannu newydd yr Awdurdod.

## Hyfforddiant

Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant perthnasol i staff mewn cysylltiad â materion cydraddoldeb a hawliau dynol. Credaf fod hyn yn bwysig mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i achwynwyr, ond hefyd fel bod fy staff yn gallu canfod, yn ystod ein hymchwiliadau, unrhyw fethiannau gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus o ran eu dyletswyddau cydraddoldeb (fel y dangosir uchod yn yr achos enghreifftiol). Yn arbennig, yn 2015/16 roeddwn yn ddiolchgar i aelodau swyddfeydd Ombwdsmon Gogledd Iwerddon a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon am ddarparu hyfforddiant i'm staff ynghylch llawlyfr yr oeddent wedi'i ddatblygu ar y cyd. Bydd y llawlyfr a'r hyfforddiant cysylltiedig yn helpu fy staff o ran defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol wrth benderfynu a ddylid derbyn cwyn yn ogystal ag wrth ymchwilio a chyflwyno adroddiad ar yr ymchwiliad.

## Casglu/Monitro Data am Gydraddoldeb Staff

Gofynnwyd i'n staff gwblhau a dychwelyd ffurflen fonitro sy'n ceisio gwybodaeth mewn perthynas â phob un o'r nodweddion gwarchodedig. Erbyn hyn, rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o'r fath yn ystod ein hymarferion recriwtio. Wrth gwrs, gwneir y datgeliad hwnnw'n wirfoddol. Mae'r data a oedd yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2016 wedi'u cyflwyno isod.

| | |
|---|---|
| Oedran | Mae oedrannau'r staff fel a ganlyn:<br>21 i 30: 17%<br>31 i 40: 29%<br>41 i 50: 31%<br>51 i 65: 23% |
| Anabledd | Dywedodd 88% o'r staff nad oeddent yn anabl; ni ddywedodd yr un aelod staff ei fod yn berson anabl (dewisodd 12% beidio â dweud)<br>Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt a gyfyngwyd ar eu gweithgareddau bob dydd o ganlyniad i broblem iechyd neu anabledd a oedd wedi para, neu yr oedd disgwyl iddi/iddo bara, o leiaf 12 mis, dywedodd 2% y cyfyngwyd llawer arnynt, dywedodd 2% y cyfyngwyd ychydig arnynt, a dywedodd 84% na chyfyngwyd ar eu gweithgareddau bob dydd (dewisodd 12% beidio â dweud) |
| Cenedligrwydd | Wrth ddisgrifio eu cenedligrwydd, dywedodd 53% eu bod yn Gymry; dywedodd 25% eu bod yn Brydeinwyr; dywedodd 10% eu bod yn Saeson; a nododd 2% 'Arall' (dewisodd 10% beidio â dweud) |
| Grŵp ethnig | Ethnigrwydd y staff yw:<br>81% Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig);<br>2% Gwyn/Gwyddelig<br>3% Du (Affricanaidd, Caribïaidd, neu Ddu Prydeinig /Caribïaidd<br>2% Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig/Bangladeshaidd<br>(dewisodd 12% beidio â dweud) |

| | |
|---|---|
| Iaith | Pan ofynnwyd iddynt am brif iaith yr aelwyd, dywedodd 73% o'r staff mai Saesneg oedd honno; dywedodd 13% Cymraeg, a nododd 2% 'Arall' (dewisodd 12% beidio â dweud) |
| Crefydd neu Gred | Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn a oedd yn gofyn i'r staff ynglŷn â'u crefydd fel a ganlyn:<br>Dim crefydd: 39%;<br>Cristnogol 39%;<br>Mwslimaidd 2%;<br>Arall:1%<br>(dewisodd 19% beidio â dweud) |
| Priodas/ Partneriaeth Sifil | Pan ofynnwyd a oeddent yn briod neu mewn partneriaeth sifil ag unigolyn o'r un rhyw, atebodd 49% o'r staff 'Ydw'; tra bo 32% wedi ateb 'Nac ydw' (dewisodd 19% beidio â dweud) |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Gan ymateb am hyn, dywedodd 75% eu bod yn Heterorywiol neu'n 'Strêt', dywedodd 2% eu bod yn Hoyw neu'n Lesbiaidd (dewisodd 23% beidio â dweud) |

O dan y dyletswyddau penodol, mae'n ofynnol inni bennu amcan cydraddoldeb o ran rhyw a chyflog; os nad ydym yn gwneud hynny, rhaid inni egluro pam. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf ddim amcan penodol yn y cyswllt hwn oherwydd mae menywod wedi'u cynrychioli'n dda iawn yn y graddfeydd cyflog uwch yn fy swyddfa. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus a bydd yr amcanion cydraddoldeb yn cael eu diwygio os bydd angen. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa bresennol.

**Cyflog a Rhyw – data fel ar 31/03/2016**

| Cyflog (cyfwerth ag amser llawn) | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Hyd at £20,000 | 1 | 4 |
| £20,001 to £30,000 | 1 | 14 |
| £30,001 to £40,000 | 2 | 4 |
| £40,001 to £50,000 | 7 | 18 |
| £50,001 to £60,000 | 4 | 3 |
| £60,001 + | 1 | 1 |
| **Is-gyfanswm** | **16** | **44** |
| **Cyfanswm** | **60** | |

O ran patrymau gweithio'r unigolion uchod, mae pob aelod staff yn gweithio'n llawnamser gan fod â chontractau parhaol, ac eithrio'r aelodau staff a ganlyn;

- mae 12 aelod staff yn gweithio'n rhan-amser (10 benyw, 2 wryw).
- roedd 2 aelod staff wedi'u cyflogi ar sail contract cyfnod penodol.

## Recriwtio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae chwe aelod staff wedi gadael. Cafodd saith o weithwyr newydd eu recriwtio; cyflogwyd pump o'r rhain i lenwi swyddi gwag a chyflogwyd dau ar gyfer swyddi newydd Swyddogion Cyfathrebu a Pholisi. Oherwydd y niferoedd bach o dan sylw, mae data cydraddoldeb yr unigolion a benodwyd wedi'u cyflwyno fel rhan o'r wybodaeth am yr holl staff uchod; nid ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno gwybodaeth ar wahân am gydraddoldeb yng nghyswllt yr unigolion hyn oherwydd y perygl y gellid eu hadnabod.

Mae'r data cydraddoldeb a gasglwyd o bob un o bedwar ymarfer recriwtio y flwyddyn ddiwethaf fel a ganlyn (sylwch: mae'r cyfansymiau sy'n dangos 101% neu 99% yn deillio o dalgrynnu):

- **SCGA** – Swyddog Cymorth Gwaith Achos
- **SPC** – Swyddog Polisi a Chyfathrebu
- **SY/SGA** – Swyddog Ymchwilio a Swyddog Gwaith Achos – panel recriwtio ar y cyd.
- **APC** – Aelod o'r Panel Cynghori

| | | SCGA | SPC | SY/SGA | APC | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | Heb ddweud | 3% | 0% | 6% | 6% | 4% |
| | o dan 25 | 34% | 20% | 28% | 0% | 21% |
| | 25-34 | 36% | 42% | 35% | 6% | 30% |
| | 35-44 | 18% | 14% | 21% | 12% | 16% |
| | 45-54 | 8% | 18% | 10% | 6% | 11% |
| | 55-64 | 1% | 6% | 0% | 59% | 17% |
| | 65-74 | 0% | 0% | 0% | 12% | 3% |
| | 75 ac yn hŷn | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | | 100% | 100% | 100% | 101% | 100% |
| **Rhywedd** | Heb ddweud | 4% | 0% | 2% | 0% | 2% |
| | Gwryw | 32% | 38% | 42% | 65% | 44% |
| | Benyw | 64% | 62% | 56% | 35% | 54% |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Cenedligrwydd** | Heb ddweud | 1% | 0% | 3% | 0% | 1% |
| | Cymraeg | 68% | 64% | 63% | 35% | 58% |
| | Saesneg | 5% | 6% | 9% | 6% | 7% |
| | Albanaidd | 1% | 2% | 3% | 0% | 2% |
| | Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 1% | 0% | 1% | 6% | 2% |
| | Prydeinig | 23% | 27% | 18% | 53% | 30% |
| | Gwyddelig | 1% | 0% | 3% | 0% | 1% |
| | | 100% | 99% | 100% | 100% | 100% |

| | | SCGA | SPC | SY/SGA | APC | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Ethnig** | Heb ddweud | 3% | 2% | 8% | 0% | 3% |
| | Gwyn (Cymreig/ Albanaidd/ Seisnig/GI/ Prydeinig) | 93% | 95% | 81% | 88% | 89% |
| | Gwyn (Gwyddelig) | 1% | 2% | 2% | 6% | 3% |
| | Gwyn (Sipsiwn/ Teithwyr Gwyddelig) | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Gwyn (Arall) | 0% | 0% | 0% | 6% | 2% |
| | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | 2% | 2% | 6% | 0% | 3% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 0% | 0% | 3% | 0% | 1% |
| | Grŵp ethnig cymysg neu luosog | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Grŵp ethnig arall | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | | 100% | 101% | 100% | 100% | 100% |
| **Iaith** | Heb ddweud | 2% | 0% | 2% | 0% | 1% |
| | Saesneg | 95% | 94% | 93% | 94% | 94% |
| | Cymraeg | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) | 3% | 6% | 5% | 6% | 5% |
| | Arall | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Anabledd** | Heb ddweud | 2% | 2% | 3% | 0% | 2% |
| | Oes | 2% | 2% | 1% | 6% | 3% |
| | Nac oes | 97% | 97% | 96% | 94% | 96% |
| | | 101% | 101% | 100% | 100% | 101% |
| **Gweithgareddau wedi'u cyfyngu** | Heb ddweud | 2% | 2% | 3% | 0% | 2% |
| | Oes, yn cyfyngu ychydig | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Oes, yn cyfyngu llawer | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Nac oes | 97% | 98% | 97% | 100% | 98% |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

| | | SCGA | SPC | SY/SGA | APC | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crefydd** | Heb ddweud | 7% | 6% | 12% | 0% | 6% |
| | Dim | 64% | 61% | 59% | 12% | 49% |
| | Cristnogol | 29% | 32% | 29% | 88% | 45% |
| | Bwdaidd | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Hindŵaidd | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Iddewig | 0% | 2% | 0% | 0% | 1% |
| | Mwslimaidd | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Sikhaidd | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | Arall | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | | 100% | 101% | 0% | 0% | 50% |
| **Yn briod neu mewn partneriaeth sifil** | Heb ddweud | 5% | 0% | 7% | 12% | 6% |
| | Ydw | 12% | 35% | 16% | 71% | 34% |
| | Nac ydw | 83% | 64% | 77% | 18% | 61% |
| | | 100% | 99% | 100% | 101% | 100% |
| **Rhywioldeb** | Heb ddweud | 15% | 2% | 19% | 0% | 9% |
| | Heterorywiol | 77% | 89% | 74% | 100% | 85% |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 6% | 5% | 7% | 0% | 5% |
| | Deurywiol | 2% | 5% | 0% | 0% | 2% |
| | Arall | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | | 100% | 101% | 100% | 100% | 100% |

*ac eithrio dyrchafiad mewnol

## Hyfforddi Staff

Mae'r rhan fwyaf o'r broses o hyfforddi staff yn seiliedig ar swyddi neu'n gymwys i'r holl staff gyfranogi ynddi, ac o ganlyniad nid oes dim ystyriaethau cydraddoldeb i roi gwybod amdanynt. Mae'r holl hyfforddiant y mae staff unigol wedi gofyn amdano wedi'i gymeradwyo, ac o ganlyniad nid oes angen rhoi gwybod am wahaniaethau o ran data cydraddoldeb rhwng ceisiadau am hyfforddiant a gymeradwywyd a cheisiadau nas cymeradwywyd.

## Disgyblu / Cwynion

Oherwydd nifer fach y staff sy'n gweithio yn y swyddfa, a nifer fach yr achosion o ddisgyblu / cwynion, nid ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno data cydraddoldeb ynghylch y categori hwn oherwydd y perygl y gellid adnabod y staff o dan sylw. Rwyf yn parhau i fod yn fodlon nad oes dim problemau y gellir eu hadnabod yn y maes hwn a fyddai'n achosi pryder imi.

## Caffael

Mae ein polisi caffael yn cyfeirio erbyn hyn at y gofynion perthnasol ynglŷn â chydraddoldeb yr ydym yn disgwyl i'n cyflenwyr fod wedi'u sefydlu.

# Atodiad A

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus:
## Crynodebau o Achosion Adroddiadau Lles y Cyhoedd

# Iechyd

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Cyhoeddwyd Mawrth 2016 - Achos rhif 201501032

Dywedodd Miss X fod ei brawd, Mr X, yn dioddef o ddiffyg cynhenid ar y galon ("ACHD") a bod ganddo gyflwr o'r enw cyffoscoliosis sy'n cael ei drin â llawdriniaeth (cyflwr lle mae'r asgwrn cefn yn amgrwn am yn ôl ac i'r ochr). Cwynodd am ddiffyg rheoleidd-dra archwiliadau, yn benodol Ecocardiogramau (prawf diagnostig sy'n defnyddio tonnau uwchsain i wneud delweddau o siambrau, falfiau a strwythurau cyfagos y galon) ("ECHO"), yn y cyfnod hyd at fis Hydref 2011. Dywedodd pe bai prawf ECHO wedi cael ei gynnal bob chwe mis, efallai y byddai'r meddygon a oedd yn ei drin wedi canfod pilen is aortig (math o rwystr is aortig sefydlog lle mae pilen ffibrog o dan y falf aortig) yn gynharach na Ionawr 2012.

Cwynodd Miss X hefyd na allai ei brawd gael ei roi ar y rhestr aros am lawdriniaeth nes bod yr holl brofion a'r archwiliadau wedi eu cwblhau a bod hyn wedi cymryd 11 mis. Dywedodd fod ei brawd wedi cael ei flaenoriaethu'n amhriodol i gael llawdriniaeth; dywedodd y dylai fod wedi cael ei flaenoriaethu o ganlyniad i'w cyffoscoliosis a'r effaith yr oedd hyn yn ei gael ar ei allu i ymestyn ei ysgyfaint. Dywedodd Miss X na fyddai hyn wedi bod yn broblem pe bai'r profion archwiliol wedi cael eu cynnal o fewn amser rhesymol. Dywedodd fod y methiant i gynnal profion ECHO yn llawer mwy rheolaidd ac i gynnal profion archwiliol o fewn amser rhesymol wedi golygu na chafodd ei brawd lawdriniaeth i achub ei fywyd. Roedd Mr X yn 57 oed pan fu farw.

Daethum i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu y dylai'r profion ECHO fod wedi cael eu cynnal yn amlach. Credais hyn am na fyddai maint y rhwystr a achoswyd gan bilen is aortaidd Mr X (fentrigl chwith y galon yn culhau ychydig yn is na'r falf aortaidd lle mae'n rhaid i'r gwaed fynd trwodd) yn debygol o fod wedi'i ganfod yn gynharach na Ionawr 2012, a fyddai wedi dangos yr angen am lawdriniaeth. O gofio na fu dim dirywiad sylweddol yng nghyflwr Mr X rhwng mis Hydref 2011 a Rhagfyr 2012, canfum nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu Mr X yn amhriodol ar gyfer llawdriniaeth. Cadarnheais y gŵyn am y cyngor clinigol a roddwyd i Mr X tra'r oedd yn aros am lawdriniaeth. Nid oedd dim tystiolaeth bod Mr X wedi ei hysbysu am symptomau a oedd yn achos pryder. Cadarnheais y gŵyn ynglŷn ag arhosiad Mr X am driniaeth.

Dylai'r driniaeth fod wedi'i rhoi o fewn 26 wythnos, ond nid oedd disgwyl y byddai Mr X yn cael triniaeth tan ar ôl i 50 wythnos fynd heibio. Pe bai Mr X wedi cael triniaeth yn gynharach, ni fyddai, fwy na thebyg, wedi marw. Roeddwn felly o'r farn y gellid bod wedi osgoi marwolaeth Mr X.

Gwnaethum yr argymhellion canlynol:

(a) bod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro'n bersonol i Miss X am y methiannau a nodwyd yn fy adroddiad, yn fwyaf penodol, y gellid bod wedi osgoi marwolaeth Mr X.

(b) bod y Bwrdd Iechyd yn cwblhau ei broses "drych" gyda'r un a gynhaliwyd o dan "Gweithio i Wella" er mwyn asesu lefel yr iawndal y dylai ei gynnig i Miss X o ganlyniad i farwolaeth

Mr X. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau fod y ffeil wedi cael ei rhannu eisoes â'i adran gyfreithiol i'r diben hwn a, gyda hynny mewn golwg, dylai gwblhau'r broses hon o fewn tri mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

(c) bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod copi o daflen Sefydliad Prydeinig y Galon o'r enw "Heart Calve Disease" yn cael ei roi i bob claf perthnasol yn y clinig a bod rhestr wirio'n cael ei chwblhau i ddangos hyn, a bod cyngor priodol yn cael ei roi. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob meddyg Cardioleg yn ymwybodol o'r gofyniad hwn. Dylid rhoi cadarnhad i'r swyddfa hon bod pob meddyg perthnasol yn ymwybodol o'r daflen hon, bod ganddynt ddigon o gopïau a'u bod yn gwybod pa bryd i'w defnyddio, i'r swyddfa hon o fewn dau fis ar ôl dyddiad yr adroddiad.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu'r argymhellion.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Cyhoeddwyd Hydref 2015 - Achos rhif 201405067

Cwynodd Mrs P am driniaeth ei diweddar ŵr yn ystod yr hyn a oedd ei wythnosau olaf ac am y modd yr ymdriniwyd â'i chŵyn. Yn benodol, cwynodd hi am yr oedi cyn i Mr P gael ei weld ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty oherwydd prinder gwelyau, methiant i wneud diagnosis o'i ganser yr ymennydd yn dilyn sgan a gynhaliwyd, a methiannau yn ei ofal a'i driniaeth (gan gynnwys rhoi cyffur iddo gyda budd prognostig cyfyngedig). Cwynodd Mrs P hefyd am y modd y cafodd Mr P wedyn ei ryddhau adref i'w gofal hi heb gynlluniau a gwasanaethau priodol wedi'u trefnu. Cwynodd ymhellach am ei fod wedi cael ei ryddhau gyda meddyginiaeth (heb iddi gael dim cyngor nac arweiniad ar eu gweinyddu) a hefyd am lythyr a ysgrifennwyd ati yn dilyn marwolaeth Mr P gan yr Ymgynghorydd a oedd yn trin Mr P, ac a oedd wedi achosi trallod pellach iddi.

Yn dilyn archwiliad o'r cofnodion clinigol, ac ar ôl cael cyngor gan fy nghynghorwyr clinigol, ni chadarnheais yr agweddau canlynol o'r gŵyn: Er na wnaethpwyd diagnosis o ganser yr ymennydd Mr P yn dilyn y sgan roedd hyn yn arfer clinigol derbyniol ar ran radiolegydd cyffredin, o gofio bod y math o ganser dan sylw yn un prin. Fodd bynnag, o gofio bod symptomau Mr P wedi parhau, dylid bod wedi ystyried cael ail farn gan Niwroradiolegydd. Er yn cydnabod trallod Mrs P wrth dderbyn y llythyr, ar adeg emosiynol, roedd yr Ymgynghorydd wedi ei ysgrifennu gyda'r bwriadau gorau. Nid oedd, wrth edrych arno'n wrthrychol, yn ansensitif ac nid oedd bwriad i achosi trallod iddi.

Cadarnheais y cwynion canlynol: Bu oedi cyn derbyn Mr P i'r ysbyty. Nid oedd y cwrs o driniaeth glinigol a gynigiwyd i Mr P yn ystod y cam hwnnw o'i salwch yn rhesymol (o gofio ei gyfradd ymateb araf) o'i gymharu â thriniaeth y gellid bod wedi ei chynnig ac a allai fod wedi ymestyn ei ddisgwyliad oes, pe bai hynny am amser byr yn unig. Cafodd Mr P ei ryddhau adref heb drefniadau priodol ar waith. Roedd y broses ryddhau wedi'i gwneud heb gyfathrebu'n effeithiol â Mr a Mrs P, ac roedd yn codi pryderon difrifol ynglŷn â meddyginiaethau a reolir. Cadarnheais hefyd y pryder ynghylch delio â chwynion.

Gwnaethum yr argymhellion canlynol, a chytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu pob un yn ei gyfanrwydd:

(a) ymddiheuriad ysgrifenedig i Mrs P a chynnig iawndal o £3,000 iddi am y trallod a achoswyd, ei hamser a'r drafferth yr aeth iddo i leisio ei phryderon ac am yr oedi wrth ddelio â'i chŵyn;

(b) paratoi cynllun gweithredu i ddelio â'r methiannau mewn gofal nyrsio a amlygwyd gan fy nghynghorydd clinigol (a oedd yn ymwneud â gofal clinigol, rhyddhau cleifion a chadw cofnodion);

(c) dylai'r achos gael ei drafod mewn cyfarfodydd Radioleg a gwasanaethau Canser fel pwynt dysgu, gan ystyried sylwadau beirniadol fy nghynghorwyr clinigol. Dylid paratoi cynllun gweithredu i ddelio â'r camau sydd wedi deillio i sicrhau na fydd hyn yn cael ei ailadrodd a dylai gael ei rannu gyda mi.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Cyhoeddwyd Mehefin 2015 - Achos rhif 201401302

Cwynodd Dr A am y gofal a roddwyd i'w fam ("Mrs A") gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ("y Bwrdd Iechyd"). Dywedodd fod Mrs A wedi cael ei derbyn i'r Uned Asesiadau Meddygol ("y MAU") yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar 13 Chwefror 2014. Cafodd ei throsglwyddo'n ddiweddarach i ward lawfeddygol ("y Ward"). Dywedodd Dr A fod Mrs A wedi cael ei brysbennu'n anghywir, bod y tîm meddygol yn hwyr yn ei harchwilio ac na roddwyd triniaeth iddi. Dywedodd fod y MAU wedi gwneud camddiagnosis ac wedi camreoli sepsis ac nad oeddent wedi dilyn y "llwybr sepsis". Dywedodd hefyd:

- fod gwrthfiotigau naill ai wedi'u rhoi'n hwyr neu ddim o gwbl
- nad oedd cydbwysedd hylifau wedi'i fonitro. Roedd ei fam yn septig ac ni allai basio wrin, ond nad oedd cathetr wedi'i fewnosod;
- ni roddwyd paracetamol yn y MAU ac roedd yn parhau â thwymyn drwy gydol ei harhosiad yn y MAU;
- er bod ocsigen wedi'i roi iddi pan oedd yn y MAU, ni roddwyd ocsigen iddi yn ystod ei throsglwyddiad o'r MAU i'r Ward.

Dywedodd Dr A fod y methiannau wedi golygu bod Mrs A wedi dioddef ataliad y galon ar 13 Chwefror. Bu Mrs A yn yr ysbyty tan 8 Mawrth pan, yn anffodus, y bu farw.

Roedd fy ymchwiliad yn ystyried y cofnodion perthnasol ynghyd â sylwadau gan y Bwrdd Iechyd a Dr A. Cefais hefyd gyngor gan ddau o fy nghynghorwyr clinigol.

Mae sepsis yn gyflwr cyffredin, a all fod yn angheuol, sy'n cael ei achosi gan haint. Os na chaiff ei drin yn gyflym, gall yn y diwedd arwain at fethiant nifer o'r organau a marwolaeth. Mae symptomau

cynnar sepsis fel arfer yn datblygu'n gyflym, a gall ddatblygu o salwch ysgafn i un difrifol yn gyflym iawn. Felly, mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Os caiff ei ganfod a'i drin yn gyflym, mae modd trin sepsis. Mae Chwe Cham Sepsis yn set gydnabyddedig o ymyriadau (sy'n cynnwys rhoi gwrthfiotigau) a all, os caiff ei gweithredu yn yr awr gyntaf, gynyddu'r siawns o oroesi.

Canfu fy ymchwiliad fod Mrs A yn dioddef o sepsis. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd wedi methu â gweithredu'r Chwe Cham Sepsis.

Dylai Mrs A fod wedi cael ei gweld gan feddyg o fewn 10 munud ar ôl cael ei brysbennu; fodd bynnag, ni chafodd ei hadolygu gan y meddyg am dair awr a hanner. Roedd oedi tebyg cyn rhoi paracetamol iddi ac, yn fwy difrifol, oedi o fwy na chwe awr cyn rhoi gwrthfiotigau.

Canfu fy ymchwiliad hefyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dilyn canllawiau ar gadw cofnodion a delio â chwynion.

O ran cwyn Dr A nad oedd Mrs A wedi cael ocsigen pan oedd yn cael ei throsglwyddo rhwng y MAU a'r Ward, roedd yn amlwg bod angen ocsigen ychwanegol ar Mrs A a'i bod wedi'i gael yn y MAU. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg yn ôl y cofnodion a roddwyd ocsigen iddi ai peidio pan oedd yn cael ei throsglwyddo i'r Ward. Os cafodd Mrs A ei throsglwyddo heb ocsigen yna byddai hwn yn fethiant difrifol. Dangosodd y cofnodion fod syanosis amgantol arni'n fuan ar ôl iddi gael ei throsglwyddo. Mae hyn yn cyd-fynd â'r posibilrwydd ei bod wedi cael ei throsglwyddo heb ocsigen. Yna dioddefodd ataliad y galon.

Yn anffodus, o ganlyniad i drefniadau cadw cofnodion gwael, ni allai fy ymchwiliad ganfod yn sicr a oedd Mrs A wedi cael ocsigen ai peidio wrth gael ei throsglwyddo. Ni allai ychwaith ganfod yn bendant ym mha ffordd yr oedd y trosglwyddiad wedi cyfrannu at ataliad y galon. Roedd y cofnodion gwael felly wedi achosi ansicrwydd, sydd ynddo'i hun yn anghyfiawnder.

Deuthum i'r casgliad fod y gofal a roddwyd i Mrs A ar 13 Chwefror yn annigonol. Felly, cadarnheais gŵyn Dr A ac argymhellais y dylai'r Bwrdd Iechyd:

(a) roi ymddiheuriad ysgrifenedig diamwys i Dr A am y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn

(b) talu swm o £4,000 i Dr A i adlewyrchu'r:
i. trallod a achoswyd gan y methiannau yng ngofal Mrs A;
ii. ansicrwydd a achoswyd gan y methiannau hynny;
iii. methiannau yn y ffordd roedd y Bwrdd Iechyd wedi delio â'i gŵyn;
iv. gwybodaeth anghywir a roddwyd yn ystod y broses gwyno

(c) fel y gellir dysgu gwersi priodol, dylai'r adroddiad hwn gael ei rannu â'r meddygon, y nyrsys a'r staff gweinyddol a oedd yn gysylltiedig â'r achos

(d) atgoffa'r meddygon a'r nyrsys a oedd yn gysylltiedig â gofal Mrs A yn ffurfiol i ddilyn y canllawiau cadw cofnodion perthnasol. (Os bydd angen, ac o fewn pedwar mis i ddyddiad yr adroddiad hwn, dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu hyfforddiant diweddaru ar gyfer staff a oedd yn gysylltiedig â'r achos sy'n dweud nad ydynt yn gwbl gyfarwydd â'r canllaw perthnasol.)

(e) cyflwyno tystiolaeth i mi o'i broses gyfredol sy'n sicrhau bod meddygon a nyrsys sy'n cwrdd ag achwynwyr yn gyfarwydd â'r achos ac â chofnodion y claf

(f) cyflwyno tystiolaeth i mi o'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd presennol sydd ganddo ar waith i atal y methiannau canlynol rhag digwydd eto:

i. bod meddygon yn adolygu cleifion sydd wedi'u categoreiddio fel brysbennu 2 o fewn yr amserlenni a bennwyd gan y MTS.
ii. meddygon a nyrsys i ddilyn y llwybr sepsis
iii. meddygon i sicrhau bod yr adolygiad llawfeddygol wedi'i gyflawni gan feddyg sy'n ddigon profiadol i'w gyflawni
iv. meddygon a nyrsys i gadw cofnodion priodol
v. meddygon, nyrsys a staff gweinyddol i ddilyn y Canllaw Cwyno

(Os na all y Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth i ddangos bod ganddo brotocolau cyfredol addas ar gyfer (e) a (f)(i) – (v) yna, o fewn pedwar mis, dylai ddangos ei gynlluniau i gyflwyno protocolau o'r fath.)

(g) Sicrhau bod hyfforddiant staff ar adnabod sepsis yn gyfoes.

(Os bydd angen, ac o fewn chwe mis ar ôl dyddiad yr adroddiad hwn, dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff sy'n dweud nad ydynt yn gwbl gyfarwydd â'r protocolau perthnasol.)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda & Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - Cyhoeddwyd Mehefin 2015 - Achos rhif 201400661 / 201402833

Cwynodd Mrs X am y gofal a'r driniaeth a gafodd ei diweddar ŵr gan wasanaeth y tu allan i oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ("y Bwrdd Iechyd") ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru ("yr Ymddiriedolaeth") yn ystod camau olaf ei fywyd.

Canfu'r ymchwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â sicrhau y byddai meddygon teulu ar gael y tu allan i oriau yn ardal Sir Benfro ar 15 Gorffennaf 2013. O ganlyniad i'r methiant hwnnw, bu'n rhaid i Mr X aros tair awr i gael ei weld gan feddyg, sef cyfnod sylweddol wrth ddioddef poen a phryder, yn enwedig yn ystod oriau olaf bywyd. Bu'r methiant i sicrhau darpariaeth ddigonol yn straen ychwanegol ar y gwasanaethau brys a rhoddwyd trigolion Sir Benfro mewn perygl.

Canfu'r ymchwiliad hefyd, yn dilyn marwolaeth drist Mr X, nad oedd y parafeddyg a oedd yno yn deall ei gyfrifoldeb dan y polisi "Cydnabod Marwolaeth" a arweiniodd at benderfyniad diangen i alw'r heddlu. Mewn ymateb i gŵyn Mrs X am y mater hwn, nodwyd hefyd fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo gweithredoedd y parafeddyg, er gwaethaf y ffaith fod y camau hynny'n groes i'r polisi ar gydnabod marwolaeth.

Argymhellais bod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro i Mrs X a'i theulu ac yn talu swm o £1000 i gydnabod y trallod a'r anghyfiawnder a ddeilliodd o fethiant y gwasanaeth a nodwyd. Argymhellais hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn atgoffa meddygon teulu am yr angen i sicrhau bod "nodiadau arbennig" cyfrifiadurol cleifion yn cael eu cwblhau ac ar gael i'r gwasanaeth y tu allan i oriau, a bod "Blychau rhag ofn" yn cynnwys y presgripsiynau angenrheidiol. Yn olaf, argymhellwyd bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei gynllun wrth gefn ar gyfer cyfnodau lle nad oes meddygon teulu ar gael yn yr ardal, ac yn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol gan yr ymarferwyr y tu allan i oriau sydd ar gael.

Argymhellais fod yr Ymddiriedolaeth yn ymddiheuro i Mrs X a'i theulu ac yn talu swm o £500 i gydnabod y trallod a'r anghyfiawnder a ddeilliodd o fethiant y gwasanaeth a nodwyd. Argymhellais hefyd fod parafeddygon a swyddogion yn cael eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau dan y polisi cydnabod marwolaeth a'r Cod Ymarfer. Yn olaf, argymhellais fod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei chynllun hyfforddi i gynnwys hyfforddiant ar y polisi cydnabod marwolaeth.

# Addysg

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cyhoeddwyd Chwefror 2016 - Achos rhif 201403532

Cwynodd Mrs A am nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("y Cyngor"), yn ei rôl fel yr awdurdod addysg lleol ("AALl") wedi ystyried yn briodol, wedi asesu na chanfod anghenion addysgol arbennig ("AAA") ei mab, B. Dywedodd Mrs A nad oedd yr AALl wedi ystyried a fyddai asesiad statudol wedi bod yn fwy priodol ar gyfer AAA B. Roedd Mrs A o'r farn nad oedd y Cytundeb Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Estynedig ("ESAP") a gyhoeddwyd gan yr AALl ar gyfer B wedi cael ei fonitro ac nad oedd yr AALl wedi sicrhau bod ei ysgol yn darparu'r cymorth a bennwyd o dan y Cytundeb hwnnw. Cwynodd Mrs A nad oedd y Cyngor wedi delio'n briodol â'i chŵyn am yr AALl.

Canfu'r ymchwiliad nad oedd cyfeiriad at Gytundebau ESAP, ac nad ydynt yn cael eu cydnabod, naill ai fel rhan o ddull graddoledig neu fel opsiwn heblaw asesiad statudol mewn unrhyw wybodaeth gan yr AALl, yn ei weithdrefnau nac yn ei bolisïau cyhoeddedig ar gyfer darpariaeth AAA. Deuthum i'r casgliad nad oedd Cytundeb ESAP, yn hytrach nag asesiad statudol yn ddull dilys o ddiwallu AAA B. Roedd polisi'r AALl yn eglur pan oedd ymyriadau B yn yr ysgol yn annigonol i ddiwallu ei ofynion AAA, y dylid bod wedi ystyried asesiad statudol ar ei gyfer. Roeddwn yn bryderus ynghylch defnydd yr AALl o Gytundebau ESAP fel opsiwn yn lle asesiad statudol.

Roedd yr AALl wedi dadlau bod Cytundeb ESAP B yn gyfystyr â Datganiad AAA ond canfu'r ymchwiliad nad oedd hyn yn wir. Hefyd, roedd y Cytundeb ESAP a gyhoeddwyd gan yr AALl yn weithredol am bythefnos yn unig yn ystod cyfnod pan oedd B yn treulio cryn dipyn yn llai o oriau yn yr ysgol. O ganlyniad nid oedd y ddarpariaeth ESAP yn cael ei chyflawni gan yr AALl.

Cadarnheais gŵyn Mrs A a deuthum i'r casgliad bod yr AALl wedi methu ag asesu a chanfod AAA B a'i fod wedi methu â darparu cymorth priodol i B i ddiwallu ei anghenion a oedd wedi'u canfod. Cadarnheais gŵyn Mrs A am y ffordd yr oedd y Cyngor wedi delio â'i chŵyn, er bod y Cyngor wedi hynny wedi cyflwyno newidiadau i'w drefn rheoli cwynion i osgoi sefyllfa o'r fath rhag digwydd eto.

Argymhellais fod y Cyngor yn ymddiheuro i Mrs A ac yn talu iawndal o £350 iddi am yr amser a'r drafferth yr aeth iddo i gwyno. Argymhellais hefyd fod y Cyngor yn penodi ac yn cyfarwyddo arbenigwr addysgol annibynnol i adolygu darpariaeth addysgol i B; bod y Cyngor yn adolygu ei Bolisi AAA cyhoeddedig; a bod y Cyngor yn archwilio'r Trefniadau ESAP sydd ar waith ganddo ar hyn o bryd i ystyried a ddylid cynnal asesiadau statudol yn unol â'i Bolisi AAA.

# Arall

## Cyngor Cymuned Cynwyd - Cyhoeddwyd Tachwedd 2015 - Achos rhif 201403092

Cwynodd Mrs X am gyfathrebu gwael rhwng y Cyngor a thrigolion lleol. Dywedodd Mrs X fod y Cyngor yn cyhoeddi rhai hysbysiadau yn Gymraeg yn unig, ac roedd hi'n ddig fod hyn yn ei heithrio hi rhag ymwneud â'r Cyngor gan nad yw hi'n siarad Cymraeg. Pan oedd y Cyngor yn cyhoeddi agendâu yn Gymraeg yn unig, dywedodd fod pobl ddi-Gymraeg dan anfantais oherwydd nad oedden nhw'n gwybod beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd hynny.

Roedd Mrs X hefyd o'r farn bod y ffaith fod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn ei heithrio hi, gan na fyddai hi'n deall beth oedd yn cael ei drafod. Teimlai fod y ffordd mae'r Cyngor yn cynnal ei waith yn effeithio'n niweidiol ar ei gallu i gymryd rhan yn iawn mewn democratiaeth leol.

Roedd Mrs X o'r farn y dylai'r Cyngor sicrhau fod ei holl hysbysiadau a chyfarfodydd yn ddwyieithog, fel bod pawb yn gallu cymryd rhan a theimlo bod eu barn a'u pryderon mor ddilys â phawb arall.

Er fy mod yn derbyn yn llwyr ac yn cefnogi'r egwyddor fod gan y Cyngor yr hawl i gynnal ei fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy bostio agendâu yn Gymraeg yn unig, canfûm fod y Cyngor wedi methu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar gyfer Mrs X fel unigolyn sy'n deall Saesneg, ond nid y Gymraeg. Mae hynny'n gamweinyddu, a achosodd i Mrs X ddioddef anghyfiawnder. Gan hynny, dyfernais fod cwyn Mr X wedi ei chadarnhau. Argymhellais:

(a) bod y Cyngor yn ymddiheuro i Mrs X yn ysgrifenedig am fethu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar ei chyfer;

(b) bod y Cyngor yn ymrwymo i gyhoeddi'r holl agendâu'n ddwyieithog ac i wneud dogfennau eraill ar gael yn ddwyieithog (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd os nad oedden nhw ar gael yn ddwyieithog yn barod) os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Ni wnaeth y Cyngor dderbyn canfyddiadau'r adroddiad, gan wrthod gweithredu'r argymhellion a wnaed.

Roeddwn hefyd wedi argymell mewn drafft cynharach o'r adroddiad hwn y dylai'r Cyngor wneud taliad o £100 i Mrs X i gydnabod yr amser a dreuliodd a'r drafferth a achoswyd iddi wrth fynd ar drywydd ei chŵyn. Ar ôl gweld y drafft, dywedodd Mrs X nad oedd hi'n barod i dderbyn yr arian. Felly, ni ofynnais i'r Cyngor wneud taliad o'r fath i Mrs X, er fy mod o'r farn y byddai'n ei haeddu

[Noder: Yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad uchod, fe wnaeth y Cyngor Cymuned gwrdd a chytunodd i weithredu fy argymhelliad yn (b) uchod.]

# Atodiad B

## Cwynion am Gyrff Cyhoeddus:
## Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau Fesul Corff Cyhoeddus

,

Noder: Mae'r cwynion wedi'u cynnwys yn y categori 'Achosion 'Arall' sy'n dilyn, yn cynnwys rhai a dderbyniwyd:

- nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth,
- nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth o galedi neu anghyfiawnder a ddioddefwyd gan yr achwynydd,
- nid oedd yn dangos y byddai llawer pellach yn cael ei gyflawni trwy fynd ar ôl y mater (er enghraifft, efallai bod corff cyhoeddus eisoes wedi cydnabod darparu gwasanaeth gwael ac wedi ymddiheuro).

## Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol

| Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3 | 8 | 5 | 1 | 1 | | 1 | | | **19** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 18 | 17 | | 1 | | | | 2 | **42** |
| Caerffili | 10 | 17 | 24 | | 2 | | 1 | 1 | 1 | **56** |
| Caerdydd | 15 | 46 | 58 | | 20 | | 2 | 1 | 1 | **143** |
| Sir Gaerfyrddin | 8 | 12 | 18 | | 8 | | 2 | 3 | | **51** |
| Ceredigion | 7 | 12 | 6 | 1 | 5 | | 2 | | | **33** |
| Conwy | 3 | 5 | 10 | | 2 | | | | | **20** |
| Sir Ddinbych | 7 | 10 | 17 | 2 | 1 | | 2 | 1 | 1 | **41** |
| Sir y Fflint | 4 | 18 | 14 | | 2 | | 3 | | | **41** |
| Cyngor Gwynedd | 7 | 4 | 11 | 1 | 4 | | 1 | 1 | | **29** |
| Ynys Môn | 2 | 14 | 12 | | | | 4 | 1 | | **33** |
| Merthyr Tydfil | 1 | 5 | 5 | 1 | 4 | | | | 1 | **17** |
| Sir Fynwy | 7 | 7 | 9 | | | | 1 | | | **24** |
| Castell Nedd Port Talbot | 5 | 14 | 16 | | 1 | | | 1 | 1 | **38** |
| Casnewydd | 1 | 10 | 14 | 1 | 4 | | 1 | 4 | | **35** |
| Sir Benfro | 6 | 17 | 17 | | 4 | | 1 | | 1 | **46** |
| Powys | 13 | 20 | 16 | | 5 | | 7 | 1 | 1 | **63** |
| Rhondda Cynon Taf | 9 | 11 | 19 | | 3 | | | | | **42** |
| Abertawe | 12 | 9 | 19 | | 2 | | 1 | | 1 | **44** |
| Bro Morgannwg | 2 | 4 | 9 | | 1 | | | 1 | | **17** |
| Torfaen | 6 | 14 | 19 | | 3 | | | | | **42** |
| Wrecsam | 6 | 17 | 21 | | 8 | 1 | 2 | | 1 | **56** |
| CYFANSWM | 138 | 292 | 356 | 7 | 81 | 1 | 31 | 15 | 11 | **932** |

## Awdurdodau Lleol Eraill

| Paneli Apêl Ysgolion | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Croesty | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd All Saints Church in Wales - Awdurdod Mynediad | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Ysgol Gynradd All Saints Church in Wales - Panel Apêl | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Beaufort Hill | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Y Fair Ddihalog | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Rogerstone | | | 2 | | | | | | | **2** |
| Ysgol Gynradd Rumney | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Llanelltyd | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gyfun Bishopston | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Ysgol Gynradd Penarlag | | | | | | | | 1 | | **1** |
| Ysgol Gynradd Mount Stuart | | | 1 | | | | | | | **1** |
| CYFANSWM | | | 12 | | | | 2 | 1 | | **15** |

Tudalen 75

## Awdurdodau Lleol Eraill (parhad)

| Awdurdodau Parcau Cenedlaethol | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 1 | 1 | 3 | | 1 | | | | | **6** |
| Arfordir Sir Benfro | | 1 | 2 | | 1 | | | | | **4** |
| CYFANSWM | 1 | 2 | 5 | | 2 | | | | | **10** |

| Awdurdod Tân ac Achub | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | | | 1 | | | | | | | **1** |
| De Cymru | 1 | | | | | | | | | **1** |
| CYFANSWM | 1 | | 1 | | | | | | | **2** |

## Cynghorau Cymuned/Tref

| Cynghorau Cymuned/Tref | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref y Fenni' | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Aberystwyth | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Dinas Bangor | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Corneli | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Corris | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cwmamman | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Cynwyd | | | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Glynedd | 1 | 2 | | | | | | | | **3** |
| Tref Caergybi | 2 | | | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llanddew | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanfynydd [Sir Gaerfyrddin] | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llangatwg | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llantwit Fardre | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llywel | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Castell Nedd | | 1 | 6 | | | | | | | **7** |
| Cymuned Rhaglan | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Cymuned Rhosllanerchrugog | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Sili a Lavernock | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Cymuned Trefeglwys | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Cymuned San Dunwyd | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Ynysawdre | 1 | 1 | | | | | | | | **2** |
| CYFANSWM | 7 | 10 | 12 | | | 1 | 1 | | | **31** |

## Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithasau Tai) | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abbeyfield, South Wales Society | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Bro Myrddin | | | 2 | | | | | | | **2** |
| Bron Afon Cyf | 1 | 3 | 1 | | | | | | | **5** |
| Cadarn Housing Group Ltd | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cadwyn Cyf | | 1 | 2 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Caerdydd | | | 1 | | 1 | | | | 2 | **4** |
| Cartrefi Conwy | | 3 | 1 | | | | | | | **4** |
| Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 2 | 3 | 10 | | 2 | | | | 1 | **18** |
| Tai Charter | | 4 | 4 | | | | | | | **8** |
| Clwyd Alyn | 2 | | 4 | | 3 | | | | | **9** |
| Coastal Housing Group Ltd | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Cymdeithas Tai Cantref | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Cynon Taf Community Housing | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Derwen Cymru | | | | | 2 | | | | | **2** |
| Family Housing Association (Wales) Ltd | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Dewis Cyntaf Cyf | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Grŵp Cynefin | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Grŵp Gwalia Cyf Ltd | 2 | 1 | 6 | | 1 | | | | | **10** |
| Hafod | 1 | 2 | 5 | | | | | | | **8** |
| Hendre | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Linc-Cymru | | 2 | | | 2 | | | | | **4** |

## Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (parhad)

| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithasau Tai) | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Melin Homes Cyf | | 2 | 2 | | | | | | | **4** |
| Merthyr Tydfil Cyf | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Merthyr Valleys Homes | 2 | 1 | 2 | | | | | | 1 | **6** |
| Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf | 2 | | | | 1 | | | | | **3** |
| Sir Fynwy | | 2 | | | | | | | | **2** |
| Newport City Homes | | 3 | 4 | | 1 | | | | | **8** |
| Newydd | | | 1 | | | | | | | **1** |
| North Wales Housing | | 2 | 1 | | 1 | | | | | **4** |
| NPT Homes | 2 | 5 | 7 | | | | | | | **14** |
| Cymdeithas Tai Sir Benfro Cyf | 1 | 1 | 2 | | | | | | | **4** |
| RCT Homes | | 4 | 2 | | | | | | | **6** |
| Rhondda Cyf | 1 | 1 | | | | | | | 1 | **3** |
| Tai Calon | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Tai Ceredigion Cyf | 1 | 1 | 2 | | | | | | | **4** |
| United Welsh | | 3 | 1 | | 1 | | | | | **5** |
| Valleys To Coast Cyf | | 1 | 1 | | 1 | | | | | **3** |
| Wales and West | 1 | 3 | 3 | | | | | | | **7** |
| CYFANSWM | 19 | 56 | 65 | | 16 | | 1 | | 5 | **162** |

## Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

| Bwrdd Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaeth y GIG | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 15 | 21 | 33 | 2 | 12 | 1 | 16 | 10 | 5 | **115** |
| Aneurin Bevan | 9 | 15 | 28 | | 12 | | 21 | 9 | 3 | **97** |
| Betsi Cadwaladr | 11 | 27 | 40 | | 24 | 1 | 21 | 8 | 3 | **135** |
| Caerdydd a'r Fro | 7 | 17 | 22 | | 14 | 1 | 16 | 5 | 3 | **85** |
| Cwm Taf | 4 | 12 | 18 | | 12 | | 11 | 10 | | **67** |
| Hywel Dda | 7 | 27 | 18 | 1 | 32 | 1 | 14 | 1 | 1 | **102** |
| Addygu Powys | 3 | 3 | 17 | 1 | 6 | | | 9 | 1 | **40** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | | 1 | 1 | | 1 | | | | | **3** |
| Felindre | 1 | | | | | | 1 | | | **2** |
| Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | 3 | 4 | 6 | | | 1 | 2 | | | **16** |
| CYFANSWM | 60 | 127 | 183 | 4 | 113 | 5 | 102 | 52 | 16 | **662** |

## Cyrff Iechyd Eraill

| Corff Iechyd Arall | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deintydd | | 11 | 7 | | 5 | | 3 | 2 | 4 | **32** |
| Meddyg Teulu | 7 | 26 | 29 | 5 | 2 | | 16 | 31 | 1 | **117** |
| Fferyllydd | | | | | 1 | | | 1 | | **2** |
| CYFANSWM | 7 | 37 | 36 | 5 | 8 | | 19 | 34 | 5 | **151** |

## Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

| Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | | | | | | | | |
| CAFCASS Cymru | | 2 | 4 | | 1 | | 1 | | | **8** |
| AGGC | | | 3 | | 1 | | 1 | 1 | | **6** |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | | | | | 1 | | | | | **1** |
| Ysgrifenyddiaeth Cwynion Annibynnol | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Arolygiaeth Cynllunio | | | 5 | | | | 1 | | | **6** |
| Llywodraeth Cymru | 4 | 7 | 6 | 1 | 3 | | 1 | 1 | | **23** |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | | 1 | 3 | | | | | | | **4** |
| CYFANSWM | 5 | 10 | 21 | 1 | 6 | | 4 | 2 | | **49** |

| Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 2 | 5 | 1 | | | | 1 | | | **9** |
| Cyllid Myfyrwyr Cymru | | 1 | 1 | | 1 | | | | | **3** |
| Y Comisiynydd Iaith | | | 1 | | | | | | | **1** |
| CYFANSWM | 2 | 6 | 4 | | 1 | | 1 | | | **14** |

## Darparwyr Gofal Annibynnol

| Darparwyr Gofal Annibynnol | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Marjorie Kirby (Warrendale Cottage Residential Home) | | | 1 | | | | | | | **1** |
| **Gofal Annibynnol GIG** | | | | | | | | | | |
| Cartref Gofal Glanbury | | | | 1 | | | | | | **1** |
| Cartref Nyrsio Nant y Gaer Hall | | | | | | | | 1 | | **1** |
| **Gofal Annibynnol yr Hunan Ariannir** | | | | | | | | | | |
| Cartref Gofal Craig Y Trwyn | | | | 1 | | | | | | **1** |
| Gofal Gwynedd Care Cyf | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Hallmark Care Home Cyf | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Hawthorn Court Care Home | | | | | | | 1 | | | **1** |
| Cartref Preswyl Kinmel Lodge | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Cartref Nyrsio Springbank | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Cartref Gofal Trewythen Hall | | | | | | | | | 1 | **1** |
| Cartref Nyrsio Lakeside House | | 1 | | | | | | | | **1** |
| Loving Care | | | | | | | | | 1 | **1** |
| Cartref Preswyl The Oaklands | | | | | | | | | 1 | **1** |
| Sevacare | | | 1 | | | | | | 1 | **2** |

## Darparwyr Gofal Annibynnol (Parhad)

| Darparwyr Gofal Annibynnol | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cartref Gofal Torestin Care Cyf (Catref Gofal Brynderwen Care Cyf) | | | 1 | | | | | | | **1** |
| Catref Gofal Ty Porth | | 1 | | | | | | | | **1** |
| CYFANSWM | 1 | 2 | 5 | 2 | | | 2 | 1 | 4 | **17** |

## ARALL

| Arall | Tu Allan i'r Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'Arall' a gaewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Ateb Cyflym / Setliad Gwirfoddol | Adroddiad S16 - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Cefnogwyd - yn llwyr neu'n rhannol | Adroddiad Arall - Ni Chefnogwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 1 | | | | | | | | | **1** |
| Corff tu allan i awdurdodaeth | 4 | | | | | | | | | **4** |
| CYFANSWM | 5 | | | | | | | | | **5** |

# Atodiad C

## Cwynion Ynghylch y Cod Ymddygiad:
## Dadansoddiad Ystadegol o Ganlyniadau yn ôl Awdurdod Lleol

## Cynghorau Sir/Cynghorau Bwrdeistref Sirol

| Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3 | | | | | | | **3** |
| Pen y Bont | 9 | | | | | | | **9** |
| Caerdydd | 14 | | 1 | | | | 2 | **17** |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 3 | 1 | 1 | | | | **8** |
| Conwy | 2 | | | | | | | **2** |
| Sir Ddinbych | 5 | | | | | | | **5** |
| Sir y Fflint | 1 | | | | | | | **1** |
| Gwynedd | 6 | | | | | | | **6** |
| Ynys Môn | 1 | 1 | | | | | | **2** |
| Sir Fynwy | 4 | | 1 | 1 | | | | **6** |
| Castell Nedd Port Talbot | 2 | | | | | | | **2** |
| Casnewydd | 2 | | | | | | | **2** |
| Sir Benfro | 5 | | 1 | 2 | | | | **8** |
| Powys | 13 | | | | | | | **13** |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | | 1 | | | | | **4** |
| Abertawe | 11 | | | | | | | **11** |
| Torfaen | 5 | | 1 | | | | | **6** |
| Bro Morgannwg | 6 | | | | | 1 | | **7** |
| CYFANSWM | 95 | 4 | 6 | 4 | | 1 | 2 | **112** |

## Cynghorau Cymuned/Tref

| Cyngor Cymuned neu Dref | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref Y Fenni | | | 1 | | | | | **1** |
| Cymuned Abertillery a Llanhilleth | 17 | | | | | | | **17** |
| Tref Aberystwyth | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Cymuned Amroth | | 1 | | | | | | **1** |
| Dinas Bangor | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Bargoed | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Barry | | | | | | 1 | | **1** |
| Cymuned Brackla | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Cymuned Bronwydd | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Buckley | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Llanfair-ym-Muallt | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Caldicot | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref  Cei Connah | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Crughywel | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Devauden | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Dinas Powys | | | | | 2 | | | **2** |
| Tref Abergwaun a Wdig | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Cwm Garw | 4 | 1 | | | | | 1 | **6** |
| Tref Glynedd | 22 | | | | | | | **22** |
| Tref Gorseinon | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Gwehelog Fawr | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Caergybi | 14 | | | | | | | **14** |

## Cynghorau Cymuned/Tref (Parhad)

| Cyngor Cymuned neu Dref | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwledig Llanelli | 6 | | | | | | | **6** |
| Tref Llanelli | | 1 | | | | | | **1** |
| Cymuned Llanfynydd [Sir Gaerfyrddin] | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Cymuned Llanfynydd [Sir y Fflint] | | | | 1 | | | | **1** |
| Cymuned Llangatwg | | | | | | | 1 | **1** |
| Tref Llangefni | | | | 1 | | | | **1** |
| Cymuned Llanofer | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llansteffan a Llanybri | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llantilio Pertholey | | 1 | | | | | | **1** |
| Cymuned Llantwit Fardre | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Llanwrtyd Wells | 3 | | | | | | 7 | **10** |
| Cymuned Llywel | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Magwyr a Gwndy | | 2 | | | | | | **2** |
| Cymuned Maenorbŷr | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Pont Fadlen | | | | | | 1 | | **1** |
| Cymuned Mwmbwls | 1 | | 2 | | 1 | | | **4** |
| Tref Neyland | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Llaneurgain | 5 | | | | | | | **5** |
| Neyland Town | | | | | | | 1 | **1** |
| Northop Community | 1 | | | | | | | **1** |

## Cynghorau Cymuned/Tref (Parhad)

| Cyngor Cymuned neu Dref | Caewyd yn dilyn ystyriaeth gychwynnol | Gollyngwyd | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynwyd yn ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tref Penmaenmawr | | | 1 | | | | | **1** |
| Cymuned Pontyclun | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Porthcawl | 1 | | | | | | 1 | **2** |
| Cymuned Radur a Threforgan | 5 | | | | | | | **5** |
| Tref Saltney | 1 | | | | | | | **1** |
| Tywyn a Bae Cinmel | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Trefeglwys | | | | 1 | | | | **1** |
| Tref Tywyn | 6 | | | 1 | | | | **7** |
| Cymuned San Dunwyd | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref y Trallwng | 3 | | | | | | | **3** |
| CYFANSWM | 117 | 6 | 5 | 6 | 3 | 2 | 13 | **152** |

## Awdurdodau Parcau Cenedlaethol

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Closed after initial consideration | Discontinued | No evidence of breach | No action necessary | Refer to Standards Committee | Refer to Adjudication Panel | Withdrawn | Total Cases Closed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bannau Brycheiniog | 1 | | | | | | | **1** |

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

**Ffôn:** 01656 641150
**Ffacs:** 01656 641199
**Ebost:** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Dilynwch ni:

Mae'r ddogfen hon wedi ei phrintio ar bapur wedi'i ailgylchu.
Mae ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Medi 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

**1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**

Hysbysu’r Pwyllgor o rifynnau diweddaraf Llyfr Achos Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod aelodau’r Pwyllgor yn nodi’r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.

**4. Manylion yr adroddiad.**

4.1 Ers 2013 mae’r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu’r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â’r cwynion y bu’n eu hymchwilio o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi’r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae’r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu’r llyfr achosion yn chwarterol o Ebrill 2015. Mae’r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae’r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Lle mae’r achosion hynny wedi'u cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, bydd dolen yn cael ei darparu yn y fersiwn electronig o'r Llyfr Achosion i'r adroddiad llawn o ganlyniad yr achos a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor neu'r Panel perthnasol.

4.4 Cynhyrchwyd y Llyfr Achos i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

4.5 Bydd y Llyfr Achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

4.6 Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 8 y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd yn Ebrill 2016 sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2016. Yn ei gyflwyniad i'r rhifyn hwn o'r Llyfr Achosion, mae'r Ombwdsmon yn mynegi ei bleser yn y ffaith, er bod y nifer o gwynion a dderbyniwyd gan ei swyddfa wedi codi, bu cynnydd yn nifer y cwynion hynny a gafodd eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Mae'n priodoli llawer o hyn i weithrediad y prawf lles y cyhoedd a gyflwynwyd y llynedd. Dylai Aelodau sylwi bod y mwyafrif o gwynion a ymchwiliwyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â datgelu a datgan diddordeb. O'r 6 cwyn a gofnodwyd yn ystod cyfnod cyhoeddi'r llyfr achos hwn, mae 4 yn ymwneud â datganiadau o ddiddordeb a 2 yn ymwneud â gwrthrychedd a phriodoldeb. O'r 6 ymchwiliad a gynhaliwyd, arweiniodd 1 achos at ganfyddiad nad oedd unrhyw dystiolaeth o doriad, daeth 3 i'r casgliad er bod achosion o doriad wedi bod, nid oedd angen gweithredu, cyfeiriwyd 1 at y pwyllgor safonau, ac 1 at Banel Dyfarnu Cymru. Nid oedd un o'r achosion yn ymwneud ag unrhyw aelod etholedig o unrhyw gyngor o fewn Sir Ddinbych.

4.7 Pan ddaeth yr ymchwiliadau i'r casgliad nad oedd angen unrhyw gamau pellach, fe ystyriwyd fod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod Ymddygiad, ond nid oedd lle i gredu ei fod er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater ymhellach.

4.8 Roedd y mater a gyfeiriwyd at bwyllgor safonau yn ymwneud â methiant gan gynghorydd cymunedol ym Mro Morgannwg i ddatgan diddordeb yn ogystal â chanfyddiad bod y cynghorydd dan sylw wedi dwyn anfri ar eu hawdurdod neu swyddfa drwy redeg busnes heb y drwydded neu'r caniatâd priodol. Cafodd y cynghorydd ei wahardd am 1 mis ar gyfer pob toriad sy'n deillio o'r ymddygiad hwn. Gosodwyd y gwaharddiadau i gydredeg.

4.9 Roedd y mater a atgyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru yn ymwneud â methiant gan aelod Magwyr gyda Chyngor Cymuned Undy i ddatgan diddordeb a gadael cyfarfod yn ystod trafodaeth ar becyn tâl Clerc y Cyngor. Roedd yr aelod dan sylw mewn perthynas â'r Clerc ac fe wnaethant briodi yn ddiweddarach. Gosododd y Panel waharddiad o 3 mis ar yr aelod gydag argymhelliad ei fod yn ymgymryd â rhagor o hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad cyn dychwelyd i'r swyddfa.

4.10 Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn yn cynnwys y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 sy'n delio â'r cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Mehefin 2016. Dim ond at 7 ymchwiliad y cyfeirir yn y cyhoeddiad hwn. O' r rhain, daethpwyd i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o dorri'r cod mewn 4 achos, a

chanlyniad tri arall oedd nad oedd angen gweithredu ymhellach. Ni chyfeiriwyd unrhyw achos ychwaith at Bwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru.

4.11 O'r achosion hyn, roedd 1 yn ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau a 6 i hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. Nid oedd un o'r achosion yn ymwneud ag unrhyw aelod etholedig o unrhyw gyngor o fewn Sir Ddinbych.

4.12 Bydd yr Aelodau'n nodi os ystyriwyd bod achos o dorri'r Cod wedi digwydd ond nid oedd angen gweithredu ymhellach, roedd hyn ar y sail nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater. Byddai un o'r achosion hyn wedi cael eu dilyn ond am y ffaith nad oedd yr aelod dan sylw bellach yn aelod o’r cyngor cymuned perthnasol, ac felly ni allai fod yn destun sancsiwn heblaw datgymhwyso. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai'r achos yn arwain at anghymwyso ac felly nid oedd er budd y cyhoedd i’w ddilyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Does dim angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 8 Ebrill 2016

# Cynnwys

Cywflwyniad 1

Crynodebau Achosion

Dim tystiolaeth o dor-amod 4

Nid oes angen gweithredu 5

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 7

Cyfeiriwyd a Banel Dyfarnu Cymru 8

Myw o Wybodaeth 9

# Cyflwyniad

### Profi Budd y Cyhoedd: Blwyddyn yn Ddiweddarach

Mae blwyddyn bellach wedi mynd heibio ers i mi gyhoeddi prawf newydd dau gam ar gyfer cwynion ynghylch y cod ymddygiad. Roedd hyn yn cynnwys Prawf Budd y Cyhoedd newydd a fyddai'n caniatáu i'm swyddfa ganolbwyntio ar y cwynion a'r achosion mwyaf difrifol o dorri cod ymddygiad yn ystod cyfnod o gynni parhaus; ymgais i ddefnyddio "synnwyr cyffredin er lles pawb".

Flwyddyn yn ddiweddarach, rwy'n teimlo'n falch iawner gwaethaf y nifer cynyddol o gwynion ynghylch y cod ymddygiad (274 - cynnydd o 19% o gymharu â 2014/15), cafodd 81% o gwynion eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol, cynnydd o ganran y llynedd, sef 74%. Roedd y prawf budd y cyhoedd yn rhan bwysig o gau'r cwynion ar yr adeg benodol honno, ac mae'n bosib ei fod hefyd wedi cael effaith ar y lefelau uwch o roi terfyn ar achosion yn ystod y flwyddyn. Er bod y gyfran a oedd yn cael ei hymchwilio wedi gostwng o 14% i 10%, cafwyd cynnydd yn nifer yr achosion mwyaf difrifol a oedd yn cael eu cyfeirio at banel dyfarnu Cymru.

| Canlyniad Cwyn | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Wedi'i chau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 213 | 178 |
| Cwyn wedi'i thynnu'n ôl | 15 | 7 |
| Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad | 10 | 20 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 11 | 17 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Dim angen gweithredu | 10 | 8 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 3 | 8 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 3 | 1 |
| Cyfanswm y Canlyniadau - cwynion ynghylch Cod Ymddygiad | 265 | 239 |

Un o brif gymhellion cyflwyno prawf budd y cyhoedd oedd y nifer pryderus o gwynion gwamal neu flinderus yr oeddwn i'n eu derbyn am gynghorwyr cymuned neu dref. Er bod bron i 60% o'r cwynion ynghylch cod ymddygiad a ddaw i law yn dal i fod yn gwynion am gynghorwyr cymuned neu dref, rwy'n falch o ddweud mai, ar hyn o bryd, dim ond 7% o'r rhain (11 allan o 158) sydd wedi cael eu hymchwilio ers cyflwyno'r prawf. Unwaith eto, mae hyn yn dangos pa mor llwyddiannus yw'r prawf o ran hidlo cwynion dibwys.

Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y cwynion ynghylch y cod ymddygiad a gafodd eu hymchwilio, mae'n siomedig gweld cynnydd cyffredinol yn nifer y cwynion a ddaeth i law, yn arbennig gan fod trefn o ddatrys y mater yn lleol wedi'i gyflwyno yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer cynghorau sir, lle mae cwynion lefel isel cynghorydd yn erbyn cynghorydd yn cael eu cyfeirio at Swyddog Monitro'r awdurdod i ddechrau, yn hytrach nag ataf i. Yn sgil newidiadau diweddar i'r cod, sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau roi gwybod am achosion posib o dorri'r cod i'r Swyddog Monitro'n unig, ac nid i mi, rwy'n ymwybodol o'r anawsterau posib a all godi wrth benderfynu a ddylid cyfeirio'r mater i gyfarfod datrys lleol neu i'm swyddfa i. Mae modd cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol o dorri cod i'm swyddfa i yn uniongyrchol o hyd, oherwydd er fy mod yn dymuno lleihau nifer y cwynion lefel isel a ddaw i law yn y pen draw, rwyf hefyd am sicrhau bod y cwynion mwy difrifol yn cael ystyriaeth briodol.

Hefyd, hoffwn weld cynnydd eleni gyda chyfarfodydd datrys lleol yn cael eu hymestyn i gynghorau tref/cymuned, er enghraifft, drwy ddefnyddio arbenigedd pwyllgorau safonau i roi sylw i faterion lleol ar lefel leol. Byddaf yn parhau i fonitro effaith prawf budd y cyhoedd ar gwynion yn ystod y flwyddyn nesaf.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu diweddaru deddfwriaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn i ni allu cyfrannu mwy at yr agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng rhagor o bwerau ar gyfer dylunio'r system gwynion, data agored ac ymchwiliadau systemig, a hynny wrth barhau i ganolbwyntio ar gyfiawnder i achwynwyr unigol.



Nick Bennett
Ombwdsmon

# Crynodebau Achosion

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn gorchuddio Hydref i Ragfyr 2015, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

## Dim tystiolaeth o dor-amod

### Cyngor Cymuned Maenorbŷr – Datgelu a Chofrestru Buddiannau
### Cyfeirnod achos 201505041/2 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2016

Cwynodd Mr A fod dau aelod ("y Cynghorwyr") o Gyngor Cymuned Maenorbŷr ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy beidio â datgan buddiant wrth wneud sylwadau ar ei gais cynllunio i'r Cyngor. Dywedodd Mr A fod gan y Cynghorwyr fusnesau tebyg i'w fusnes ef, felly roedd ei gais yn cael effaith uniongyrchol ar eu lles ariannol.

Canfu'r Ombwdsmon fod buddiannau busnes y ddau Gynghorydd dan sylw yn sylweddol wahanol o ran graddfa a natur i fusnes Mr A. Felly ni fyddai aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod unrhyw fuddiant mor arwyddocaol y byddai'n debygol o lywio eu barn er budd y cyhoedd. Daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y Cynghorwyr wedi torri'r Cod Ymddygiad.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Cymuned Trefeglwys – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Cyfeirnod achos 201503879 – cyhoeddwyd yr adroddiad fis Ionawr 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Trefeglwys ("y Cyngor Cymuned") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig drwy fethu â datgelu buddiant rhagfarnus mewn cais cynllunio a oedd yn cael ei drafod gan y Cyngor. Honnwyd y dylai'r Cynghorydd fod wedi datgelu buddiant a gadael yr ystafell pan oedd y mater yn cael ei drafod gan fod ei dir yn ffinio â'r datblygiad arfaethedig a'i fod wedi datgan yn ystod y cyfarfod ei fod yn bwriadu gwrthwynebu'r datblygiad.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad ei bod yn debygol fod gan y Cynghorydd fuddiant rhagfarnus yn y mater ac y gallai fod wedi torri'r Cod drwy beidio â datgelu'r buddiant hwnnw a gadael yr ystafell. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd er lles y cyhoedd i ymchwilio ymhellach am nad oedd yn ymddangos bod methiant y Cynghorydd i ddatgelu buddiant wedi effeithio ar benderfyniad y Cyngor Cymuned am nad oedd wedi penderfynu gwrthwynebu'r cais cynllunio. O ganlyniad, ni achoswyd niwed i'r ymgeisydd.

Canfu'r Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd camau pellach mewn cysylltiad â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

### Cyngor Tref Cei Conna – Gwrthrychedd a phriodoldeb
### Cyfeirnod achos 201504305 – cyhoeddwyd yr adroddiad fis Chwefror 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Tref Cei Conna ("y Cyngor Tref") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ar ôl iddo ddatgelu wrth drydar sut yr oedd Cynghorydd arall wedi pleidleisio yn ystod cyfarfod cyfrinachol o'r Cyngor Tref, a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015.

Canfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol; fodd bynnag, nid oedd yn achos digon difrifol o dorri'r Cod i fod er lles y cyhoedd i ymchwilio ymhellach gan fod yr wybodaeth yn wleidyddol ei natur ac nad oedd yn cael ei hystyried fel gwybodaeth sensitif. O gofio bod disgwyl i'r

penderfyniad gael ei gyhoeddi gan y Cyngor y diwrnod canlynol a bod yr wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cynghorydd yn gywir, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Hefyd, gan nad oedd y sylwadau a wnaethpwyd yn arbennig o sarhaus, nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi fod gweithredoedd y Cynghorydd yn ddigon difrifol i gyfrif fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad.

Canfu'r Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd camau pellach mewn cysylltiad â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.

### Cyngor Sir Fynwy – Gwrthrychedd a phriodoldeb
### Cyfeirnod achos 201503259 – cyhoeddwyd yr adroddiad fis Mawrth 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Sir Fynwy ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Roedd Mr X wedi gofyn i'r Cynghorydd gefnogi ei wrthwynebiad i gais cynllunio a bu'n bresennol mewn cyfarfod ag ef. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio'n ddiweddarach, roedd y Cynghorydd wedi datgan buddiant personol yn y cais a gadawodd y cyfarfod. Cwynodd Mr X nad oedd y Cynghorydd wedi egluro ei buddiant personol wrtho a'i fod wedi'i adael heb gynrychiolaeth.
Cafwyd tystiolaeth gan y Cyngor a chafodd y Cynghorydd ei gyfweld. Derbyniodd y Cynghorydd na ddylai fod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod â Mr X, oherwydd ei buddiant personol a rhagfarnus, ond dywedodd ei bod wedi gweithredu ar gyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd y Cynghorydd wedi rhagweld y byddai angen iddi gynrychioli Mr X yn ddiweddarach ac roedd wedi gweithredu ar gyngor i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Nid oedd wedi camddefnyddio'i swydd i amddifadu Mr X o gynrychiolaeth. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod buddiant personol y Cynghorydd wedi codi cyn ei chyfarfod â Mr X, ac na ddylai fod wedi bod yn bresennol.

Canfu'r Ombwdsmon y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri'r Cod ond penderfynwyd nad oedd er lles y cyhoedd i gymryd camau pellach yn ei herbyn.

## Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

### Cyngor Cymuned Dinas Powys – Datgelu a chofrestru buddiant
### Cyfeirnod achos 201403562 – Mai 2015

Cafwyd cwyn fod aelod (“y Cynghorydd”) o Gyngor Cymuned Dinas Powys (“y Cyngor Cymuned”) wedi gweithredu Llety Cŵn “yn anghyfreithlon” yn ei gartref.

Honnwyd hefyd nad oedd y Cynghorydd wedi datgan buddiant yn ystod cyfarfod o Is-bwyllgor Cyngor Cymuned. Mewn cwyn ar wahân, honnwyd fod y Cynghorydd wedi lobio aelodau o is-bwyllgor cynllunio’r Cyngor Cymuned cyn iddynt drafod ei gais cynllunio am y Llety Cŵn.

Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth gan y Cyngor Cymuned a chan Gyngor Bro Morgannwg. Cyflwynodd y Cynghorydd ddatganiadau ysgrifenedig a chafod ei gyfweld yn ffurfiol. Roedd yr Ombwdsmon o’r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y Cod wedi’i dorri a chyfeiriodd y mater at Bwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg.

Daeth y Pwyllgor Safonau i’r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri’r Cod Ymddygiad a phenderfynodd y dylai gael ei wahardd am gyfnod o fis.

Gellir gweld penderfyniad y Pwyllgor Safonau yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Cyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy – Datgelu a chofrestru buddiannau
Cyfeirnod achos 201403838 – cyhoeddwyd yr adroddiad fis Hydref 2015.
Cafwyd cwyn nad oedd aelod ("y Cynghorydd") mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Magwyr a Gwyndy ar 7 Ebrill 2014 wedi datgan buddiant na gadael y cyfarfod tra'r oedd pecyn cydnabyddiaeth ariannol y Clerc yn cael ei drafod. Roedd perthynas rhwng y Cynghorydd a'r Clerc a phriododd y ddau'n ddiweddarach ar 4 Hydref 2014.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cod wedi'i dorri a chyfeiriwyd yr ymchwiliad at Banel Dyfarnu Cymru i'w ddyfarnu gan dribiwnlys. Daeth y tribiwnlys i'r casgliad bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac fe'i gohiriwyd am dri mis.
Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma.

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 9 Gorffennaf 2016

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Dim tystiolaeth o dor-amod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 5 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 7 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 8 |
| Mwy o Wybodaeth | 9 |


# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Ebrill i Fehefin 2016, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dor-amod

### Cyngor Cymuned Langstone – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Cyfeirnod yr Achos 201503565 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Cwynodd Mr A y gall aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Langstone ("y Cyngor") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad o fod ynghlwm mewn penderfyniad i gyllido gwaith i ardal a oedd yn eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd ("Cyngor y Ddinas") a gychwynnwyd mewn cais a wnaed gan ei wraig. Ystyriodd yr Ombwdsmon a oedd y Cynghorydd wedi torri darpariaethau'r Cod ynglŷn â buddiannau niweidiol, dwyn anfri a cheisio creu mantais.

Cafwyd gwybodaeth oddi wrth Mr A, y Cynghorydd a'r Cyngor a chafodd ei hystyried. Rhoddwyd cyfweliad i Mr A a'r Cynghorydd.

Darganfu'r Ombwdsmon fod gwraig y Cynghorydd wedi bod ynghlwm â'r cynnig i gymhennu'r tir, nid oedd budd y Cynghorydd yn y mater mor arwyddocaol â'i fod wedi bod yn fudd niweidiol, o gofio mai ychydig o fudd a fyddai iddo ef a'i deulu o gymhennu'r tir. Roedd yr arian am gael ei dalu i Gyngor y Ddinas i wneud y gwaith, ac felly nid oedd unrhyw fantais ariannol i'r Cynghorydd a'i deulu. Nid oedd dim felly i'w rwystro rhag cymryd rhan yn y broses o wneud y penderfyniad. Roedd yn dilyn nad oedd unrhyw fantais ac nad oedd wedi dod ag anfri ar y Cyngor. Darganfu'r Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod.

### Cyngor Cymuned Radur a Threforgan – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201506371 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn y gall aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Radur a Threforgan ("y Cyngor Cymuned") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau pan wnaeth hi:

a) ffonio Clerc y Cyngor Cymuned, gan roi pwysau arni i newid cofnodion y cyfarfod

b) pasio nodyn i aelod o'r cyhoedd yn gofyn i bedwar aelod o'r cyhoedd adael Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, a

c) chynhyrchu ei fersiwn ei hun o gofnodion y cyfarfod ar 28 Ionawr.

Ynglŷn â'r gŵyn gyntaf, darganfu'r Ombwdsmon fod y fersiynau o beth a ddywedwyd yn ystod galwad ffôn yn gwahaniaethu yn sylweddol, ac fel y cyfryw, roedd yn amhosibl i gadarnhau'r honiad a wnaed. Ynglŷn â'r ail gŵyn, darganfu'r Ombwdsmon, tra bod camau gweithredu'r Cynghorydd yn rhai annoeth, nid oeddent yn torri'r Cod.

Yn olaf, ynglŷn â'r drydedd gŵyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y cofnodion a

gynhyrchwyd gan y Cynghorydd yn anghywir ac roedd aelodau wedi cael y cyfle i'w herio a'u cywiro. Ymhellach, nid oedd yr Ombwdsmon yn meddwl y gallai cofnodion o ansawdd gwael fod yn arwydd fod y Cynghorydd yn bwlio'r Clerc nac yn peryglu ei didueddrwydd. O ystyried hynny, daeth i'r casgliad nad oedd ei chamau gweithredu yn torri'r Cod.

### Cyngor Cymuned Radur a Threforgan – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201506372 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn y gall aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Radur a Threforgan ("y Cyngor Cymuned") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau pan alwodd gyfarfod o'r Cyngor Cymuned ym mis Chwefror 2016 a llunio ei agenda ei hun ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth fod y Cynghorydd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i'r Cadeirydd. Yn ogystal, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cynghorydd yn ymddangos ei fod yn dangos barn i'r gwrthwyneb a oedd yn cael ei gefnogi'n eang gan ei gydweithwyr. Roedd ei gamau gweithredu, o dan yr amgylchiadau, yn ymddangos yn rhesymol ac nid oedd yn torri'r Cod.

### Cyngor Cymuned Radur a Threforgan – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201506373 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn y gall aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Radur a Threforgan ( "y Cyngor Cymuned") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau pan ddatgelodd wybodaeth gyfrinachol mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2015.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Tref Llanilltud Fawr – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201503287 – Cyhoeddwyd adroddiad yn mis Mehefin 2016

Cwynodd Mrs A y gall cyn-aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Tref Llanilltud Fawr ("y Cyngor") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad pan ddaeth ati ar lawr y pentref wrth ymyl ei chartref a dechrau gweiddi arni ac ymddwyn mewn ffordd annifyr ac ymosodol. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon a oedd ymddygiad honedig y Cynghorydd o'r fath fel ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd neu'r Cyngor ac a ellid ei ystyried yn amharchus.

Darganfu'r Ombwdsmon, rhwng popeth, y gall ymddygiad y Cynghorydd fod wedi torri'r Cod. Fodd bynnag, dywedodd yr Ombwdsmon nad oedd y mater ym mudd y cyhoedd i'w ddilyn gan fod y Cynghorydd wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor. Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen gweithredu ynglŷn â'r materion a archwiliwyd.

### Cyngor Gwledig Llanelli – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201500401 a 201505296 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Gwledig Llanelli ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau pan rwystrodd llwybr aelod arall a gweithredu mewn modd bygythiol tuag ati.

Roedd y dystiolaeth a'r datganiadau tyst yn anghyson â'i gilydd ac yn awgrymu fod y ddau gynghorydd ynghlwm yn yr ymrafael ar 8 Ebrill 2015. Yn y modd hynny, ar ei liwt ei hun, anogodd yr Ombwdsmon ymchwiliad i ymddygiad y ddau Gynghorydd.

Darganfuwyd nad oedd paragraffau y Cod a oedd yn ymwneud â pharch ac ystyriaeth ac aflonyddu a bwlio yn berthnasol gan nad oedd unrhyw un o'r aelodau yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddi cyhoeddus ar y pryd.

Yn ogystal, darganfuwyd y gall y ddau Gynghorydd fod wedi torri paragraff y Cod ynglŷn â dwyn anfri. Fodd bynnag, nid oedd ym mudd y cyhoedd i gyfeirio'r Cynghorwyr i'r Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru ar yr achlysur hwn.

Cynghorwyd y ddau Gynghorydd i ystyried eu hymddygiad yn y dyfodol yn ofalus, a phe byddai unrhyw doriad dilynol o'r Cod, byddai'r Ombwdsmon â'r hawl i ystyried unrhyw doriad tebygol cynharach a chyfeirio ato mewn unrhyw adroddiad dilynol fel tystiolaeth o batrwm o ymddygiad.

### Cyngor Tref Cydweli – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Cyfeirnod yr Achos 201401250 – Cyhoeddwyd adroddiad ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn fod aelod (“y Cynghorydd”), yng Nghyngor Tref Cydweli ar y pryd, wedi torri’r Cod Ymddygiad i aelodau pan fu’n ymddwyn yn amhriodol mewn digwyddiad. Honnwyd ei fod yn feddw iawn, ac wedi gwneud sylw amhriodol o natur rywiol ynglŷn â nifer o ferched yn y digwyddiad, yn cynnwys dynes 19 oed. Yn ogystal, honnwyd ei fod yn ddiweddarach wedi cyffwrdd y ddynes ifanc mewn modd rhywiol amhriodol.

Darganfu’r Ombwdsmon fod Gwasanaeth Erlyn y Goron (“GEG”) wedi dilyn achos o ymosodiad rhywiol, ond na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ddilynol gan fod y ddynes ifanc o dan sylw wedi cytuno i dderbyn ymddiheuriad ffurfiol a chyhoeddus gan y Cynghorydd a ddywedodd ei fod wedi meddwi, ac o ganlyniad, efallai ei fod wedi ymddwyn mewn modd amhriodol.

Os yw’n cael ei brofi, byddai’r honiad o ymosodiad rhywiol yn ddigon difrifol i ddwyn y Cynghorydd a’i Awdurdod i anfri. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth yn bendant, ac am nifer o resymau ystyriwyd y byddai’n annhebygol y byddai Panel Dyfarnu Cymru yn gwneud cais am anghymhwyso, yr unig sancsiwn ar gael iddo oherwydd nad oedd y Cynghorydd mwyach yn aelod o’r Awdurdod dan sylw, yn yr achos hwn. Yng ngoleuni hyn, ni fyddai’n gymesur i gyfeirio’r achos i Banel Dyfarnu Cymru.

Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen gweithredu ynglŷn â’r materion a ymchwiliwyd iddyn nhw.

## Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.Geen@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag